Gwasanaeth Tân ac Achub
De Cymru

South Wales
Fire and Rescue Service



GWASANAETH TÂN AC ACHUB DE CYMRU

# **Cynllun Strategol** 2020-2030

1AF EBRILL 2024 - DIWEDDARIAD BLWYDDYN PUMP

**CODI YMWYBYDDIAETH**
**LLEIHAU RISG**

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg

# Cynnwys

Rhagair ........ 3
Adolygiad Diwylliant Annibynnol ........ 5
Strwythur Llywodraethu'r Gwasanaeth ........ 7
Adolygiadau Thematig ........ 8
Ein Themâu Strategol ........ 9
Datganiad Lles ........ 10
Y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol ........ 11
Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023 ........ 11
Cynlluniau Reoli Risg Cymunedol (CRhRC) ........ 11
Ein Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) ........ 12
Datblygu Ein Cynllun ........ 13
Cynlluniau a Strategaethau Eraill ........ 17
Ein Themâu Strategol ........ 18
- Eich cadw'n ddiogel ........ 18
- Ymateb i'ch argyfwng ........ 22
- Gweithio â phartneriaid ........ 26
- Cynnwys a chyfathrebu ........ 29
- Diogelu a dyrchafu ein hamgylchedd ........ 33
- Defnyddio technoleg yn dda ........ 37
- Gwerthfawrogi ein pobl ........ 40
- Parhau i weithio'n effeithiol ........ 43

Trosolwg Ystadegau 2022-2023 ........ 47
Dangosyddion Perfformiad Strategol ........ 48
Ein Cyllideb 2024-2025 ........ 49
Yr Iaith Gymraeg ar Dweud Eich Dweud ........ 50

**Rheoli'r tanwydd, lleihau'r risg**

Ar y clawr mae timau tanau gwyllt yn cynnal llosgiadau a drefnwyd i osod rhwystrau tân mewn lleoliadau sy'n agored i dân yn y Rhondda. Mae'r diffoddwr tân yn defnyddio chwythwr dail i ddiffodd fflamau ar hyd llinell reoli sefydledig. Mae'r gwaith hwn yn digwydd rhwng mis Hydref a mis Mawrth i baratoi ar gyfer y tymor tanau gwyllt.

# Rhagair



**Stuart Millington**
Prif Swyddog Tân
Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru

Croeso i bumed diweddariad cynnydd blynyddol ein Cynllun Strategol 2020-2030. Mae'r cynllun yn cyfleu sut byddwn yn sicrhau ein bod yn cyflawni ein gweledigaeth o wneud De Cymru'n fwy diogel trwy gamau gweithredu a chyflawni yn erbyn ein Themâu a'n Hamcanion Strategol.

Wrth weithio mewn partneriaeth â chydweithwyr mewn gwasanaethau rheng flaen gyfochrog, a'n cymdeithion ar draws sectorau eraill, ein nod yw diogelu a gwasanaethu holl gymunedau ac ymwelwyr i Dde Cymru â'r ardal. Eleni, byddwn yn cael ein goruchwylio a'n cynorthwyo gan bedwar Comisiynydd Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru.

Mae'r diweddariad hwn yn myfyrio ar y cynnydd y mae'r Gwasanaeth wedi'i wneud dros y flwyddyn ddiwethaf, gan gynnwys canfyddiadau'r Adolygiad Diwylliant Annibynnol diweddar, a'r argymhellion a ddaeth yn ei sgil.


Mae'r Adroddiad yn nodi'n glir y newidiadau sydd eu hangen i wneud ein Gwasanaeth yn lle gwell a diogelach i weithio. Fodd bynnag, rhaid i ni gydnabod, bod y mwyafrif helaeth ohonom yn dod i'r gwaith i wneud gwaith da a chynnal agwedd broffesiynol at ein cydweithwyr a'n dyletswyddau bob amser. Bu'n flwyddyn anodd i'r Gwasanaeth, wrth broses yr adolygiad a myfyrio ar ei ganfyddiadau a'i argymhellion, ond rydym yn cydnabod ac yn anwesu'r cyfle mae'n cyflwyno i lunio ein dyfodol.


Bydd y bennod nesaf hon yn cynnwys derbyn argymhellion yr Adolygiad a sicrhau gweithrediad cadarnhaol ar gyfer pob un ohonynt. Er ein bod yn cydnabod troseddau'r gorffennol, rhaid edrych ymlaen at ddyfodol mwy disglair, mwy unedig, lle'r ydym yn atgyfnerthu arweinwyr i wneud penderfyniadau ar y lefel briodol, gyda dealltwriaeth eglur a rennir o'r gwahaniaethau rhwng ymddygiadau disgwyliedig ac ymddygiadau sy'n groes i werthoedd y Gwasanaeth. Rhaid i ni gydnabod a chael ein cydnabod am y gwaith cadarnhaol sy'n digwydd o ddydd i ddydd yng Ngwasanaeth Tân ac Achub De Cymru.

Mae ein gwaith i gefnogi unrhyw un sydd wedi'i effeithio gan yr ymddygiadau negyddol a nodir yn yr Adroddiad yn parhau wrth i ni ganolbwyntio ar sicrhau bod y Gwasanaeth yn lle diogel, lle gall unrhyw un deimlo'n rhydd i siarad, heb ofn cerydd na barn, gan wybod bydd eu lleisiau'n cael eu clywed.

Edrychaf ymlaen at weld y newidiadau cadarnhaol y gallwn eu gwneud yn unol â'r cynllun ar gyfer eleni, yn ogystal â chyfrannu at lunio dyfodol mwy disglair a chadarnhaol i'r Gwasanaeth ar y daith hon yr ydym yn ymgymryd â hi gyda'n gilydd.

Diolch yn fawr.



**Prosiect ysgrifennu llyfrau yn lledaenu ymwybyddiaeth diogelwch tân**

Bu plant o chwe ysgol gynradd ar draws Rhondda Cynon Taf yn cydweithio ag arbenigwyr lleol ac awdur straeon i ysgrifennu hanes crwban o'r enw Lula, sydd bron â chael damwain gyda thân gwyllt wrth iddi geisio dod o hyd i gynhesrwydd.

Gyda chymorth Tîm Lleihau Llosgi Bwriadol Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, law yn llaw â phartneriaid ac arbenigwyr o sefydliadau gan gynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru a Heddlu De Cymru, daeth y llyfr plant hwn yn fyw, gan amlygu ba mor ddifrifol gall yr amgylchedd gael ei ddifrodi gan dân gwyllt. Y gobaith yw bydd y llyfr yn cael ei ddefnyddio fel arf addysgiadol gan awdurdodau lleol, y gwasanaethau brys ac ysgolion eraill i addysgu plant ynghylch peryglon tân.

**Yn y llun ar y chwith: Yr awdur Mike Church yn un o'r lansiadau**

# Adolygiad Diwylliant Annibynnol

Ddiwedd 2022, roedd Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru yn destun craffu dwys gan y cyfryngau yn dilyn adroddiadau yn y wasg am gasineb at fenywod a gweithdrefnau disgyblu aneffeithiol. Arweiniodd hyn at gomisiynu Adroddiad Adolygiad Diwylliant Annibynnol. Penodwyd Fenella Morris CB a'i thîm yn dilyn proses a arweiniwyd gan banel annibynnol. Roedd y panel penodi yn cynnwys Rachel Williams a'r Cynghorydd Lis Burnett; gyda Paula Kathrens, partner gyda Chyfreithwyr Blake Morgan. Roedd y Prif Swyddog Tân Huw Jakeway hefyd ar gael mewn rôl ymgynghorol yn unig ac ni chymerodd unrhyw ran yn y broses benderfynu, gyda'r aelodau panel Rachel Williams a'r Cynghorydd Lis Burnett sy'n aelodau o'r panel yn llwyr gyfrifol am benodi'r Cadeirydd annibynnol.

## Cwmpas yr Adolygiad oedd:

- Asesu'r polisïau, gweithdrefnau a systemau cyfredol ar fwlio, aflonyddu, cwynion, pryderon chwythu'r chwiban, urddas yn y gwaith, cwynion ac unrhyw brosesau eraill ar gyfer codi pryderon, sut y cânt eu cymhwyso, a'u cymharu ag arfer gorau;
- Asesu polisïau a gweithdrefnau disgyblu cyfredol a sut y cânt eu cymhwyso, o'u cymharu â thelerau ac amodau cyflogaeth ac arfer gorau cenedlaethol ;
- Adolygu cwynion blaenorol dros y saith mlynedd ddiwethaf, gan gynnwys bwlio, aflonyddu, pryderon chwythu'r chwiban, a chwynion am urddas yn y gwaith a'r ffordd yr ymdriniwyd â hwy;
- Adolygu sut yr ymdriniwyd ag achosion disgyblu staff blaenorol dros y saith mlynedd ddiwethaf a sut mae hynny'n effeithio ar ddiwylliant;
- Asesu effeithiolrwydd rhaglenni datblygu a hyfforddiant sy'n cefnogi urddas, parch ac atal ymddygiad amhriodol;
- Ystyried a rhoi sylwadau ar werthoedd, ymddygiad, safonau a phenderfyniadau arweinwyr ar bob lefel yn y Gwasanaeth, yn broffesiynol a phersonol (lle bo'n berthnasol), a sut maent yn effeithio ar ddiwylliant a'n/neu'n dylanwadu arno;
- Ystyried effaith ymddygiad unigol neu grŵp a safonau staff, a sut mae hyn yn dylanwadu ar ddiwylliant;
- Rhoi sylwadau ynghylch a oes diwylliant agored a chefnogol, gan gynnwys cymorth i staff sy'n ymwneud â digwyddiadau trawmatig a'r effeithiau posib;
- Adnabod meysydd cryfder, arfer da ac ymddygiadau enghreifftiol;
- Ystyried y gwahaniaeth o ran profiadau staff o safbwynt cydraddoldeb ac amrywiaeth; a
- Gwneud argymhellion ar ganfyddiadau'r Adolygiad.

Gwahoddwyd gweithwyr cyfredol yn ogystal â chyn-weithwyr, rheolwyr ac aelodau'r Awdurdod Tân ac Achub (ATA) i ymgysylltu â'r broses ynghyd ag ymchwil bwrdd gwaith ac adolygu dogfennaeth.

Cyhoeddwyd Adroddiad yr Adolygiad Diwylliant Annibynnol am hanner dydd, Ddydd Mercher, y 3ydd o Ionawr 2024. Nodwyd nifer o themâu negyddol:

- Diwylliant gwael ac ymddygiad amhriodol
- Safonau sy'n is na'r hyn a ddisgwylir ac a fynnir gan ein cymunedau
- Ymosod, bwlio, aflonyddu, gwahaniaethu ac ymddygiadau amhriodol eraill
- Diffyg cynwysoldeb ac ymddygiad amhriodol
- Ymdriniaeth negyddol o ddiffoddwyr tân benywaidd
- Rhwydweithiau anffurfiol – bodolaeth "clwb i'r bechgyn"
- Diffyg tryloywder mewn prosesau dyrchafu
- Ofn siarad yn agored
- Angen gwelliannau sylweddol mewn polisïau a gweithdrefnau
- Angen gwelliannau ar gyfer prosesau disgyblu
- Cyfathrebu annigonol ar bob lefel

Cafwyd cydnabyddiaeth hefyd o agweddau a gweithgareddau cadarnhaol:

- Ymrwymiad balch cyffredinol i wasanaethu'r gymuned
- Diwylliant cynnes a chefnogol yn y gwylfeydd ar y cyfan
- Ymroddiad, angerdd ac ymrwymiad staff corfforaethol
- Gwasanaeth iechyd galwedigaethol mewnol rhagorol
- Mesurau cadarnhaol i gefnogi iechyd meddwl a'r niwroamrywiol
- Y Prif Swyddog Tân yn hyrwyddo atal trais yn erbyn menywod a merched
- Mwy o ymrwymiad i Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant

Gwnaed cyfanswm o 82 o argymhellion. Rhannwyd y rhain yn feysydd i'w gwella ac amserlenni, gyda'r cam cychwynnol yn adnabod camau gweithredu ar gyfer y 1-3 mis cyntaf. Derbyniwyd yr argymhellion yn llawn gan arweinyddiaeth y Gwasanaeth a'r Awdurdod Tân ac Achub mewn cyfarfod arbennig ar y 15fed o Ionawr 2024.

Mewn datganiad i'r Senedd ar y 6ed o Chwefror 2024, daeth y Dirprwy Weinidog dros Bartneriaethau Cymdeithasol i'r casgliad bod methiannau'r Gwasanaeth mor ddifrifol na allai fod yn hyderus y byddai argymhellion yr Adolygiad yn cael eu gweithredu'n llwyr. Yn ogystal, dywedodd nad oedd argymhellion adolygiadau thematig y Prif Gynghorydd Tân ac Achub wedi'u gweithredu, gan godi materion pwysig o ran diogelwch Diffoddwyr Tân a'r cyhoedd. Diddymwyd yr Awdurdod Tân ac Achub a chafodd ei disodli gan bedwar Comisiynydd, gyda'r cylch gorchwyl canlynol[1]:

a. Gweithredu holl argymhellion yr adolygiad o ddiwylliant a gwerthoedd GTADC o fewn y terfynau amser a nodir ynddo.

b. Sefydlu a goruchwylio uwch dîm rheoli a phrosesau cysylltiedig heb eu llygru gan y methiannau a nodir yn yr adroddiad; a'r cam cyntaf yw penodi Prif Swyddog Tân ac, yn ôl yr angen, uwch staff eraill sydd i'w gweld yn fwyaf tebygol o gyfrannu'n llawn ac yn effeithiol at adferiad yr Awdurdod.

c. Sefydlu a gweithredu proses i adnabod achosion achwyn a gododd yn ystod y cyfnod a gwmpesir gan yr adroddiad a allai fod wedi cael eu trin yn amhriodol ac yn/neu'n annheg. Byddant hefyd yn sicrhau bod yr achosion hynny'n cael eu hail-agor a'u hail-archwilio, gan arwain at ganlyniad teg a chyfiawn.

ch. Gweithredu pob un o argymhellion o fewn adolygiadau thematig y Prif Gynghorydd Tân ac Achub yn ymwneud â:

    Dysgu gan Ymchwiliad Tŵr Grenfell
    Capasiti Gwasanaeth Tân ac Achub
    Hyfforddiant gweithredol y Gwasanaeth Tân ac Achub

d. Gwneud trefniadau ar gyfer gostyngiad sylweddol a pharhaus ym mhresenoldeb GTADC mewn galwadau diangen.

dd. Datblygu cynigion ar gyfer llywodraethu ATA yn y dyfodol i leihau'r risg o fethiannau pellach o'r fath.

d. Cyflawni swyddogaethau eraill yr Awdurdod a'i aelodau fel y nodir mewn statud a rheolau sefydlog yr Awdurdod.

f. Cynghori Llywodraeth Cymru ar gynnydd gyda'r uchod, a'r potensial i ddod ag ymyrraeth i ben.


ff. Ymgymryd â'u holl waith gydag ysbryd partneriaeth gymdeithasol lawn, a thrwy ymgysylltu parhaus ac effeithiol â staff GTADC a chyrff cynrychioliadol.

Mae manylion am ymyrraeth a diweddariadau Llywodraeth Cymru ar gael **yma**.

[1] *Fel y'i cyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru https://www.llyw.cymru/ymyrraeth-awdurdod-tan-de-cymru-tan-ac-achub-awdurdod-ymyrraeth Diweddarwyd 28 Chwefror 2024*

# Strwythur Llywodraethu'r Gwasanaeth

Mae'r graffig a ganlyn yn dangos y strwythur datblygu ac adrodd mewnol ar gyfer cam cychwynnol y gwaith ar argymhellion yr Adolygiad. Mae pedwar gweithgor wedi'u sefydlu, gan gynnwys Uwch Arweinwyr Canol a gwirfoddolwyr o bob rôl a rheng. Bydd y gweithgorau hyn yn datblygu cynlluniau gweithredu ac yn adnabod adnoddau a ffyrdd o weithio a fydd yn sicrhau bod newid yn cael ei ymgorffori ar bob lefel.




Ein nod yw gwneud mwy na chyflawni argymhellion a nodwyd yn yr Adroddiad Adolygiad Diwylliant Annibynnol yn unig. Ein bwriad yw:

> **Creu gwasanaeth tân ac achub diogel a modern yn Ne Cymru a sicrhau bod pob un yn cael eu trin gydag urddas a pharch, heb wahaniaethu, bwlio, aflonyddu ac ymddygiadau amhriodol eraill.**

Bydd hyn yn gwneud yn siwr bod gan gymunedau De Cymru wasanaeth tân ac achub y gallent fod yn falch ohono.

Bydd cynnydd gweithredu'r argymhellion yn destun ffrwd adrodd ddynodedig.

# Adolygiadau Thematig

Fel y nodwyd eisoes, mae gan y Comisiynwyr a benodwyd gan Lywodraeth Cymru i oruchwylio gwelliannau i'r Gwasanaeth gyfrifoldeb llwyr dros weithredu adolygiadau thematig Prif Gynghorydd y Gwasanaeth Tân ac Achub. Bydd hyn yn cael ei ddatblygu mewn cydweithrediad agos â'r gweithlu a'n partneriaid statudol o dan amodau Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus sy'n hyrwyddo llesiant wrth law gwella gwasanaethau cyhoeddus wrth weithio cymdeithasol mewn partneriaeth.

Mae'r adolygiadau'n rhoi dadansoddiad manwl o bynciau penodol mewn perthynas â'r tri ATA yng Nghymru gan ganolbwyntio ar y canlynol:

**Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru: Dysgu o Grenfell**
Mae'r Adolygiad, a gyhoeddwyd yn 2021, yn adrodd ar y camau a gymerwyd gan y tri GTA yng Nghymru yn erbyn yr argymhellion sydd o fewn adroddiad Cam 1 Ymchwiliad Tŵr Grenfell (GTI). Adnabyddir nifer o faterion gweithredol sy'n berthnasol i GTA Cymreig nad ydynt yn cael eu cydnabod yn benodol naill ai yn adroddiad Cam 1 GTI na'i argymhellion, nad ydynt efallai'n unigryw i ddigwyddiadau tyrrau uchel.

**Ehangu rôl Diffoddwyr Tân yng Nghymru**
Gan ystyried y fanyleb amlinellol a ddatblygwyd gan Weithgor Ehangu'r Rôl, a gynullwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2020, mae'r adolygiad yn ystyried gallu'r tri GTA yng Nghymru i wneud gwaith ychwanegol sy'n deillio o ehangu'r rôl, yn ddiogel a heb niweidio swyddogaethau craidd. Mae'r fanyleb y cytunwyd arni gan y Gweithgor yn amlinellu dyletswyddau ychwanegol i gefnogi cydweithwyr Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

**Adolygiad Thematig o hyfforddiant gweithredol o fewn Gwasanaethau Tân ac Achub Cymru**
Mae'r adolygiad hwn, a gyhoeddwyd yn 2022, yn ystyried faint o amser sydd ar gael ar gyfer hyfforddiant cynnal a chadw sgiliau ac ymarfer o fewn arferion gwaith presennol yr orsaf ac ar y System Dyletswydd Wrth Gefn (SDdWG), pryder a godwyd yn yr adolygiad thematig blaenorol. Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar sgiliau craidd ac ychwanegol i Ddiffoddwyr Tân a rheolwyr goruchwylio.

Cliciwch ar y lluniau isod neu defnyddiwch y codau QR i ddarllen yr adroddiadau llawn.









# Ein Themâu Strategol

Mae'r tabl isod yn nodi'r wyth Thema Strategol sy'n sail i'n Cynllun Strategol 2020-2030. Mae ein hamcanion gwella blynyddol wedi'u hadeiladu o fewn y themâu hyn, ac maent hefyd yn strwythuro ein blaenoriaethau a'n cynllunio wrth i ni weithio i gyflawni ein datganiad cenhadaeth:

**"I wneud De Cymru'n fwy diogel, wrth leihau risg."**

Rydym wedi mapio'r themâu hyn i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (DLl CD) i ddangos sut mae ein blaenoriaethau'n cyfrannu at y saith nod llesiant.

Wedi ymgynghori, rydym wedi ailenwi dwy o'n themâu strategol i adlewyrchu ein pwrpas yn well yn y meysydd hyn:

- Mae **Ymgysylltu a chyfathrebu** wedi'i newid i **Cynnwys a chyfathrebu** Mae hyn yn cydnabod yr angen i sicrhau bod ein staff a'n cymunedau wrth galon llywio datblygiad y Gwasanaeth i'r dyfodol.
- Mae **Diogelu** ein hamgylchedd wedi cael ei newid i **Diogelu a dyrchafu ein hamgylchedd** I gydnabod ein rôl weithredol wrth sicrhau y gall cenedlaethau'r dyfodol fwynhau'r amgylchedd naturiol, trwy ein hymateb gweithredol a'n rôl yn y sector cyhoeddus fel ceidwad cyfrifol.

| Thema Strategol | Yr hyn a wnawn | Thema Strategol | Yr hyn a wnawn |
|---|---|---|---|
| Eich cadw'n ddiogel | Canolbwyntio ar waith atal er mwyn lleihau'r angen i chi ein galw | Diogelu a dyrchafu ein hamgylchedd | Cynnal ein gweithgareddau mewn modd fydd yn helpu cynnal y ddaear ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol |
| Ymateb i'ch argyfwng | Sicrhau ein bod ni'n ymateb yn gyflym ac effeithiol pan fydd ein hangen arnoch | Defnyddio technoleg yn dda | Chwilio'n barhaus i ddefnyddio'r dechnoleg ddiweddaraf er mwyn gwella ein gwasanaeth i chi |
| Gweithio â phartneriaid | Gweithio gyda'r BGC o fewn De Cymru a phartneriaid eraill i ddarparu Gwasanaeth Tân ac Achub sy'n cwrdd â'ch anghenion | Gwerthfawrogi ein pobl | Cynnal gweithlu amrywiol sy'n cynrychioli eich cymuned, a hyfforddwyd yn dda ac sy'n ymroddedig i gyflawni ein gwasanaeth |
| Cynnwys a chyfathrebu | Sicrhau bod ein holl gymunedau a'n staff yn cael eu cynnwys wrth ein helpu i ddarparu gwasanaeth rhagorol | Parhau i weithio'n effeithiol | Sicrhau bod ein Gwasanaeth yn rhoi gwerth am arian ac yn amlwg yn atebol |

# Datganiad Lles




Mae egwyddor datblygu cynaliadwy Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn nodi:


**"Dylai cyrff Gwasanaethau Cyhoeddus weithredu mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu, heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain."**

Rydym wedi ymrwymo i gyflawni ein dyletswyddau yn unol â DLl CD.

Wrth i ni ddatblygu ein Themâu Strategol, sef y blaenoriaethau lefel uchel sy'n llywio ein cynllun, mae saith nod DLl CD yn cael eu hystyried i sicrhau ein bod yn cyfrannu at eu cyflawni ac mae ein cynlluniau wedi'u mapio i'r rhain. Mae'r Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol newydd a gyflwynwyd yn ddiweddar yn rhoi ffocws newydd ar ein cyfrifoldebau fel corff sector cyhoeddus yng Nghymru, i'n cymunedau, ein staff a chenedlaethau'r dyfodol.

Mae'r DLl CD hefyd yn nodi'r **pum ffordd ganlynol o weithio** y mae'n rhaid i ni eu hystyried a'u gweithredu'n unol â hwy wrth gynllunio a gwneud penderfyniadau:

- Cydbwyso anghenion tymor byr ag anghenion **tymor hir** – Mae cymryd golwg tymor hwy yn ein Cynllun Strategol 2020-2030 yn ein galluogi i ystyried sut bydd tueddiadau a newidiadau i'r dyfodol yn effeithio ar y cyhoedd a'n gwasanaethau, gan gynnwys newid hinsawdd a demograffig.
- Darparu adnoddau i **atal** problemau – Mae ein gweithgarwch ataliol yn amrywio o weithio gyda busnesau a pherchnogion adeiladau i wneud eiddo'n ddiogel, i weithio gydag unigolion a grwpiau i newid ymddygiad, hyn oll â'r nod o atal yr angen am gael ymateb brys.
- Defnyddio dull **integredig** wrth gydbwyso anghenion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol – Ymgymerir â'n proses gynllunio ar y cyd wrth gynnwys randdeiliaid amrywiol megis ein staff, ein partneriaid ac aelodau'r cyhoedd, i sicrhau bod effeithiau cynigion yn cael eu harchwilio'n llawn. Bydd hyn yn parhau i ddatblygu yn unol â'r Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol.
- **Cydweithio** ag eraill i helpu cwrdd ag amcanion llesiant – Rydym yn gweithio gydag ystod eang o bartneriaid ar lefel strategol a lleol.
- **Cynnwys** eraill i adlewyrchu amrywiaeth maes – Mae ein gweithgareddau ymgynghori ac ymgysylltu yn sicrhau bod cyfleoedd i gyfrannu safbwyntiau a syniadau. Bydd y ddyletswydd ychwanegol i weithio mewn Partneriaeth Gymdeithasol yn rhoi ffocws penodol ar ein perthynas â chyrff cynrychioliadol.



**Hirdymor** **Atal** **Integreiddio** **Cydweithio** **Cynnwys**

# Dyletswydd Economaidd-gymdeithasol 2021

Ers mis Mawrth 2021, bu rhaid i gyrff cyhoeddus yng Nghymru ystyried sut mae penderfyniadau strategol yn effeithio ar y rhai sy'n byw mewn amgylchiadau cymdeithasol ac economaidd llai ffafriol, er enghraifft, y rhai sy'n profi tlodi neu gyfleoedd anghyfartal o ran mynediad i wasanaethau megis trafnidiaeth. Gall anfantais o'r fath arwain at anghydraddoldeb canlyniadau megis iechyd llai llewyrchus, cyrhaeddiad addysgol is, a chyfleoedd gwaith llai ffafriol. Rydym felly'n rhoi sylw dyledus at anfantais economaidd-gymdeithasol wrth wneud penderfyniadau strategol, sy'n cyfrannu at nodau DLl CD trwy gynhyrchu Asesiadau Effaith Cydraddoldeb wrth ddatblygu prosiectau, diwygio neu ysgrifennu polisïau, dylunio mentrau/ymgyrchoedd, ac ati. Mae'r asesiadau hyn yn cael eu hadolygu'n barhaus i sicrhau bod ein gweithgareddau yn wirioneddol gynhwysol. Wrth fynd i'r afael ag unrhyw rwystrau o ran cyrchu ein gwasanaethau, rydym yn canolbwyntio ar y bobl rydym yn eu gwasanaethu.

# Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023

Mae'r Ddeddf yn cyfeirio cyrff cyhoeddus yng Nghymru sydd o fewn cwmpas y Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol at fframwaith sy'n ategu DLl CD a'r ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol yn ei phedair egwyddor allweddol:

- Partneriaeth Gymdeithasol – ymgynghori a gweithio gydag undebau llafur neu, lle nad oes undeb llafur cydnabyddedig, cynrychiolwyr staff eraill wrth osod amcanion llesiant a gwneud penderfyniadau strategol ar eu cyflawni
- Caffael sy'n Gyfrifol yn Gymdeithasol – yn gofyn am gyhoeddi strategaeth gaffael sy'n sicrhau ystyried ffactorau heblaw cost gwariant cyhoeddus, gan gynnwys rheoli'r gadwyn gyflenwi
- Gwaith Teg – mae rhoi 'gwaith teg' yn lle 'gwaith teilwng' yn nod llesiant Cymru Ffyniannus yn canolbwyntio ar ddarparu amodau sy'n galluogi amgylchedd iach, cynhwysol sy'n talu sylw at lesiant
- Datblygu Cynaliadwy – ystyried effaith penderfyniadau a wneir heddiw i'r dyfodol

Mae'r cyfrifoldebau hyn yn cael eu cydnabod o fewn prosesau cyfredol a'n cynlluniau. Byddwn yn parhau i adeiladu ar cydberthnasau cadarnhaol ag undebau llafur wrth gyflwyno sesiynau cynllunio pwrpasol ac ymrwymo i gyflawni ar argymhelliad yr Adolygiad Diwylliant Annibynnol, gan ganolbwyntio'n benodol ar lesiant. Mae Strategaeth Gaffael Gwasanaeth Tân ac Achub Cymru 2022-2027 yn cael ei hadolygu i fynd i'r afael â'r ddyletswydd newydd. Ar gyfer ein Gwasanaeth, rydym wedi datblygu egwyddorion datblygu cynaliadwy sy'n llywio ein prosesau gwneud penderfyniadau a byddwn yn parhau i ystyried angen uniongyrchol ac effaith tymor hir er mwyn sicrhau tryloywder ac atebolrwydd.

# Cynlluniau Reoli Risg Cymunedol (CRhRC)

Mae ein 47 gorsaf dân ac achub yn cynhyrchu CRhRC blynyddol yn seiliedig ar anghenion y cymunedau maent yn eu gwasanaethu, gan adnabod risgiau/blaenoriaethau lleol megis risgiau adeiladau/eiddo, dŵr, a ffyrdd. Mae'r cynlluniau hyn hefyd yn amlygu gweithgareddau a mentrau cymunedol sy'n cael eu cynllunio a'u darparu'n lleol ac yn cefnogi gwaith Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC).

Yn ein Cynllun Gwella Blynyddol, rhoesom drosolwg o'r ardal rydym yn gwasanaethu, gan amlygu rhai o'r heriau penodol a wynebir a sut maent yn effeithio ar ein cymunedau. Mae hyn yn dangos yr edefyn sy'n cysylltu cynlluniau ein gorsafoedd â'n blaenoriaethau strategol a gysylltwyd â'n gwaith gydag awdurdodau unedol a chyrff cydgysylltu, gan gynnwys BGC lleol.

# Ein Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC)

Rydym yn parhau i weithio gyda'r BGC yn ein hardal a'u cefnogi. Mae gan BGC gyfrifoldeb i baratoi a chyhoeddi cynlluniau lles lleol ac adrodd ar eu cynnydd yn flynyddol i ddangos sut mae cyfrifoldebau o dan DLl CD yn cael eu cwrdd.

Byddwn, ar bob adeg, yn ystyried canlyniadau hirdymor ein gweithrediadau a sut allwn fod yn aelodau effeithiol o'n BGC, yn cydweithredu a chymryd agwedd gyfannol at ddarparu gwasanaethau i helpu pobl deimlo'n ddiogel ac iach yn eu bywydau o ddydd i ddydd.

Mae ein gwaith gyda'r BGC yn arddangos ein hymrwymiad i egwyddor ddatblygu cynaliadwy DLl CD, saith nod DLl CD a chymhwyso'r pum ffordd o weithio.

Mae strwythur ein BGC wedi newid, wrth i bum awdurdod gyfuno i ffurfio BGC Gwent yn 2021 a chyfunwyd BGC Pen-y-bont ar Ogwr a BGC Cwm Taf Morgannwg yn Ebrill 2023. Byddwn yn parhau i ymgysylltu ar lefel strategol a lleol â'r strwythurau BGC newydd.

Cliciwch ar y logo perthnasol isod i ymweld â gwefan BGC.

# Datblygu Ein Cynllun

Mae datblygu ein cynlluniau yn broses barhaus o fonitro ac adolygu wrth i ni adnabod cyfleoedd i wella. Rydym yn ystyried y cynnydd yr ydym yn ei wneud tuag at ein gweledigaeth gyffredinol o “Wneud De Cymru’n fwy diogel wrth leihau risg” ac effaith tymor hwy ein gweithgareddau ar gyfer ein staff, partneriaid a’r cymunedau a wasanaethwn. Yn 2023-2024 roedd cyhoeddi’r Adolygiad Diwylliant Annibynnol (ADA) yn ddigwyddiad digynsail i’r Gwasanaeth a bydd ei argymhellion yn dylanwadu ar ein cynlluniau yn y misoedd a’r blynyddoedd nesaf. Mae penderfyniad dilynol Llywodraeth Cymru i ymyrryd, gan ddisodli strwythur llywodraethu’r Awdurdod Tân ac Achub trwy benodi pedwar Comisiynydd, yn gosod y Gwasanaeth mewn sefyllfa o newid rhyfeddol. Bydd ein Fframwaith Cynllunio Strategol yn cael ei adolygu a’i ailgyhoeddi i adlewyrchu’r newidiadau hyn yn ogystal â’r Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol newydd sy’n nodi’r disgwyliadau i gyrff cyhoeddus o fewn cwmpas ymgynghori a gweithio gydag undebau llafur wrth osod nodau llesiant.

Cynhyrchwyd y diweddariad hwn mewn cyfnod lle bu ffocws sylweddol ar ein pobl a’n diwylliant. Llywiwyd yr ADA, a arweiniwyd gan Fenella Morris CB, gan raglen o ymgysylltu â staff a chanfod ffeithiau. Cynhyrchodd hyn ddarlun clir o feysydd i’w gwella a adleisiwyd mewn gweithgareddau ymgysylltu eraill â staff, gan gynnwys sesiwn yn rhoi adborth ar Hydra 10kv a gyflwynwyd gan Sefydliad Hydra ym mis Gorffennaf 2023. Darparodd y sesiwn hon gyfle i ddysgu safbwyntiau 60 o staff o dan destun eang “Beth sy’n Bwysig”, yn gwerthuso sefyllfa’r Gwasanaeth i adnabod unrhyw fylchau o ran sicrhau gweithle diogel a theg i bawb. Ar wahân i’r ADA, mae’r cwmwl geiriau isod, a gynhyrchwyd o ganlyniad i holl adborth y sesiwn, yn dangos synergedd y materion a godwyd.




Rydym yn ymgynghori â’n staff, ein cymunedau, a’n partneriaid cyn cwblhau ein hamcanion. Rydym yn cyfarfod yn rheolaidd â’n Uwch Dîm Arwain i adolygu’r adborth hwn ac ystyried yr holl risgiau sy’n ymwneud â thân ac achub a all effeithio ar gymunedau De Cymru i bennu ffyrdd o weithio’n effeithiol ar atal y risgiau hyn rhag niweidio’r rhai yn ein cymunedau.

Byddwn hefyd yn ystyried ein cyllidebau a’r cyfreithiau sy’n effeithio arnom, i wneud yn siŵr ein bod yn canolbwyntio ein gwaith ar y meysydd cywir. Wedyn byddwn yn datblygu cynlluniau manylach ar gyfer pob blwyddyn, sy’n cefnogi cyflawni ein hamcanion. Adroddwyd yn rheolaidd ar gynnydd ein cynlluniau i’r Awdurdod Tân ac Achub a datblygir mecanweithiau newydd ar gyfer adrodd i’r Comisiynwyr.


## Ymgynghori a gweithgareddau ymgysylltu eraill

Mae ein gweithgareddau ymgynghori yn monitro a oes consensws ar ein blaenoriaethau arfaethedig yn ogystal ag unrhyw bryderon ychwanegol gan ein staff, ein cymunedau a'n partneriaid. Rydym yn adnabod materion a themâu allweddol a godwyd, gan gynhyrchu dogfen ymateb a gyhoeddir ar ein gwefan. O'r ymgynghoriad, gellir diwygio neu ailffocysu blaenoriaethau. Lle bo angen, rydym yn darparu esboniad ychwanegol o gefndir a diben yr amcanion arfaethedig.

Mae ymgynghoriad blynyddol gyda'n staff, y cyhoedd, a'n partneriaid yn gofyn am eu barn ar ein hamcanion arfaethedig ar gyfer y flwyddyn ariannol i ddod. Roedd arolwg eleni ar agor rhwng y 31ain o Hydref 2023 a'r 24ain o Ionawr 2024. Gwelsom lefelau is o ymgysylltu ac adborth, yn enwedig ymhlith grwpiau staff, o bosib achos gweithgarwch ymgynghori arall mewn perthynas â'r Adolygiad Diwylliant Annibynnol, sesiwn 10kv Hydra a gynhaliwyd gyda grŵp o 60 o staff, a holiaduron eraill a dargedwyd. Fe wnaethom hefyd gynnal cyfarfodydd ffocws mewn gorsafoedd gyda chriwiau Dyletswydd Gyflawn ac Ar Alwad - mae eu hadborth wedi'i gynnwys yn ein hadolygiad o themâu allweddol.

Yn gyfan, ymgysylltodd 212 o bobl â'r arolwg, sef gostyngiad o 23.5% o'i gymharu â 277 yn y flwyddyn flaenorol. Golyga hyn bod 108 o ymatebwyr yn rhoi adborth, sef gostyngiad o 212 neu 52.4%. Y canlyniadau allweddol oedd:

- Cafwyd cytundeb cyffredinol â'n themâu a'n hamcanion strategol arfaethedig, gyda 81% o'r ymatebion yn gadarnhaol (Cytuno'n Gryf neu'n Cytuno i Raddau)
- Gwelwyd y lefelau uchaf o gytuno yn y meysydd craidd o ran darparu gwasanaeth (Eich cadw'n ddiogel, Ymateb i'ch argyfwng a Gweithio gyda'n partneriaid) a chafwyd cynnydd ym mhob un flwyddyn ar ôl blwyddyn
- Y lefelau isaf o gytundeb oedd mewn Gwerthfawrogi ein pobl, Parhau i weithio'n effeithiol, a Diogelu a dyrchafu ein hamgylchedd




*Cytundeb â Themâu ac Amcanion Strategol – Cymharu cytundeb trwy ymatebion ymgynghori*

## Pwyntiau allweddol a godwyd gan yr ymgynghoriad

**Blaenoriaethu meysydd a amlygwyd yn yr Adolygiad Diwylliant Annibynnol fel cyfleoedd i wella**

- Mae gwerthfawrogi staff yn hollbwysig
- Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant – dylai'r Gwasanaeth ddod yn fwy cynhwysol
- Dylid gwella cyfathrebu, yn enwedig â gorsafoedd, a dylid darparu adborth lle bynnag y bo modd

Mae'r themâu hyn i gyd yn ymwneud â materion a godwyd hefyd gan yr ADA ac mewn sesiynau ymgysylltu â staff eraill, gan nodi'r angen am ymrwymiad cyffredinol i gyflawni'n llawn yr argymhellion sy'n codi o'r asesiad carreg filltir hwn o'r Gwasanaeth. Pwysleisiwyd pwysigrwydd ein staff ym mhob agwedd o'r Gwasanaeth, yr angen i sicrhau amgylchedd diogel a chynhwysol, gan gynnwys a chyfathrebu'n effeithiol bob amser, trwy gydol ein hymgynghoriadau ac mae'n sbardunol ein hymrwymiad i newid.

**Codi ymwybyddiaeth o'n gwasanaethau a chyfathrebu'n fwy effeithiol, yn fewnol ac yn allanol, gan gynnwys cyfathrebiadau a dargedwyd yn well ar gyfer y rhai sydd fwyaf mewn risg o fewn ein cymunedau**

Nid yw ystod y gwasanaethau a'r cymorth a ddarparwn wedi'u cyfathrebu'n effeithiol, yn seiliedig ar adborth a dderbyniwyd. Felly byddwn yn edrych ar ffyrdd i wella hyn, yn enwedig sut rydym yn adnabod ac yn targedu'r rhai mwyaf agored i risg.

**Canolbwyntio ar waith atal i leihau risg yn ein cymunedau**

Mae ein hymrwymiad i leihau risg yn parhau a bydd yn cael ei gefnogi gan ryddhau capasiti gan weithgareddau eraill, yn unol â chyfarwyddiadau Llywodraeth Cymru i'r Comisiynwyr.

**Adolygu'r system Ar Alwad**

Cododd cwestiynau ynglŷn ag agweddau ar systemau Ar Alwad mewn ymgynghoriadau amrywiol, gan gynnwys y system ddyletswydd, recriwtio, cadw a hyfforddi. Bydd y Tîm Rheoli Wrth Gefn yn bwrw ymlaen ag adolygu'r trefniadau Ar Alwad.

**Archwilio mwy o gyfleoedd i gydweithio â sefydliadau eraill**

Roedd adborth wedi cydnabod pwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth a rhannu data. Bydd cyfleoedd yn parhau i gael eu hadnabod a'u datblygu.

**Dylid gwella TGCh, a dylai'r Gwasanaeth barhau i fod yn arloesol wrth ddarparu'r dechnoleg orau sydd ar gael i'r holl garfanau staff**

Roedd sicrhau bod technoleg yn darparu'r atebion gorau ar gyfer darparu gwybodaeth a gweithgareddau cofnodi yn sylw a gododd dro ar ôl tro.

**Defnydd mwy effeithlon o gerbydau i wella cynaliadwyedd a lleihau costau**

Codwyd adolygu'r defnydd o beiriannau/pympiau wrth gyflawni gweithgareddau diogelwch cymunedol a threfniadau ar gyfer defnyddio cerbydau trydan ar gyfer teithiau angenrheidiol.

**Darparu gwerth am arian - dylai'r Gwasanaeth fod yn fwy effeithiol ac atebol**


Yn unol â gwell cyfathrebu, codwyd yr angen am dryloywder, gan gydnabod yr angen am atebolrwydd fel gwasanaeth cyhoeddus.

## Cyd-destun y Cynllun hwn

Mae'n ofynnol i ni gydymffurfio ag ystod o ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â chyrff sector cyhoeddus ac yn benodol ag Awdurdodau Tân ac Achub, y rhoddwyd dyletswyddau'r rhain i bedwar Comisiynydd gan Lywodraeth Cymru o'r 6ed o Chwefror 2024. Mae'r gofynion cyfreithiol hyn ynghyd â'n cenhadaeth gyffredinol sef "Gwneud De Cymru'n fwy diogel wrth leihau risg" yn rhoi cyd-destun i'n cynllun ar gyfer 2024-2025. Our legislative responsibilities include:

- Deddf Gwasanaethau Tân as Achub (2004)
- Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) (2009)
- Y Fframwaith Tân ac Achub Cenedlaethol (2016)
- Deddf Cydraddoldeb (2010) a Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (2015)
- Y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol (2021)
- Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) (2023)

Mae adroddiad ac argymhellion yr Adolygiad Diwylliant Annibynnol yn rhoi cyd-destun ychwanegol ar gyfer ein cynlluniau.



# Cynllluniau a Strategaethau Eraill

Rydym wedi datblygu strategaethau a chynlluniau eraill sy'n cefnogi cyflawni ein nodau strategol cyffredinol:




## Ein Cynllun Star tegol 2020-2030

Mae'r ddogfen hon yn datgan ein strategaeth tymor hwy i sicrhau ein bod yn darparu gwasanaeth effeithiol a chynaliadwy. Mae'n cyflwyno'r wyth Thema Strategol a gwmpesir yn y diweddariad hwn.




## Ein Cynllun Gwella Blynyddol 2023-2024

Bob blwyddyn rydym yn edrych yn ôl ar y flwyddyn flaenorol i adolygu effaith ein gweithgareddau gwella arfaethedig, a byddwn hefyd yn edrych ymlaen at y flwyddyn i ddod wrth gyflwyno amlinelliad o'r camau gweithredu arfaethedig ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus.




## Ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2023-2026

Gan nodi ein hamcanion cydraddoldeb ar gyfer y tair blynedd nesaf, mae'r cynllun hwn yn manylu ar sut byddwn yn gweithio tuag at ein hymrwymiad i sicrhau cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ym mhopeth a wnawn.




## Ein Cynllun Lleihau Carbon 2020-2023

Mae'r cynllun hwn yn nodi sut byddwn yn parhau i wella'r ffyrdd yr ydym yn defnyddio ein hadnoddau i sicrhau'r niwed lleiaf i'n hamgylchedd.




## Cewch weld ein Cynllun Monitro'r Iaith Gymraeg

Mae'r ddogfen hon yn nodi ein camau gweithredu ar gyfer cydymffurfio â'n dyletswyddau yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a sut rydym yn cefnogi gweledigaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru.

# Ein Themâu Strategol

## Eich cadw'n ddiogel

Yn Cefnogi'r Nodau Llesiant isod:

Cymru gydnerth

Cymru o gymunedau cydlynus

Cymru iachach

Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

### Beth mae hyn yn ei olygu?

Wrth ddeall risg yn ein cymunedau, gallwn ddarparu cyngor, cyfeirio ymgyrchoedd, a chymryd camau gwybodus a fydd yn gwneud De Cymru'n ddiogelach. Cefnogir ein gwaith i atal argyfyngau gan raglen lleihau risg a sbardunwyd gan dystiolaeth. Mae pob gorsaf dân ac achub yn datblygu Cynllun Rheoli Risg Cymunedol (CRh RC) blynyddol sy'n canolbwyntio ar anghenion cymunedol yn seiliedig ar wybodaeth leol. Cefnogir hyn wrth fonitro risgiau hysbys a risgiau sy'n dod i'r amlwg sy'n ein galluogi i adnabod yr eiddo a'r bobl sydd fwyaf mewn perygl.

Nododd ein Cynllun Gwella Blynyddol ffactorau risg mewn perthynas â thanau mewn anheddau, nifer ohonynt yn ymwneud ag anfantais economaidd-gymdeithasol. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd gweithio gyda phartneriaid i gyrraedd y rhai mwyaf agored i risg a datblygu ein defnydd o ddata i dargedu gweithgarwch yn ddeallus. Mae hyn yn sicrhau ein bod yn ymatebol ac yn effeithiol, gyda llawer o'n gweithgareddau lleihau risg yn cael eu cydnabod fel rhai arloesol.

Rydym wedi cydnabod effaith mynychu galwadau ffug ar ein hadnoddau gan fod galwadau tân ffug yn cyfrif am gyfartaledd o 44.4% o'r digwyddiadau ers 2013-2014, gan gyrraedd uchafbwynt o 47.2% o'r holl ddigwyddiadau a fynychwyd yn 2020-2021. Darparodd ein presenoldeb yn y digwyddiadau hyn lwybr pwysig i roi cyngor lleihau risg i aelwydydd a chymunedau, ond cydnabyddwn nad yw'r dull yma'n gynaliadwy o ystyried y gofynion cynyddol eraill sydd ar y Gwasanaeth ac rydym yn mynd i'r afael â'r argymhellion a gyhoeddwyd gan Archwilio Cymru[2]. Rydym yn cynllunio rhaglen addysg ac ymgynghori ar gynigion i gyfyngu ar ein presenoldeb mewn galwadau diangen gan ganolbwyntio ar Larymau Tân Awtomatig mewn lleoliadau annomestig.

**Canolbwyntio ar waith atal i helpu lleihau'r angen i chi ein galw ni**

### Byddwn yn eich cadw chi'n ddiogel wrth:

- Leihau effaith galwadau ffug ar ein hadnoddau
- Lleihau nifer y tanau yn y cartref a deall eu hachosion a'u hymddygiad
- Lleihau nifer y Gwrthdrawiadau Traffig Ffyrdd (GTFf)
- Lleihau nifer y tanau bwriadol
- Gwella diogelwch yn y dŵr ac o'i gwmpas
- Gwella diogelwch tân mewn adeiladau yn ein cymunedau

### Rydym yn mesur ein cynnydd wrth fonitro:

- Digwyddiadau a fynychwyd
- Gofynion o ran adnoddau
- Gweithgareddau lleihau risg mewn lleoliadau domestig, busnes a lleoliadau eraill

### Beth wnaethom yn 2023-2024

**Parhau i weithio gyda phartneriaid ar fentrau i leihau nifer y tanau bwriadol** gan adeiladu ar bartneriaethau llwyddiannus i sicrhau bod negeseuon diogelwch yn cyrraedd y nifer fwyaf o bobl ar draws cymunedau De Cymru.

*[2] Lleihau larymau Tân Ffug Archwilio Cymru - Blwyddyn Archwilio Awdurdod Tân ac Achub De Cymru 2022 - 2023 a gyhoeddwyd ym Mai 2023,*

- Ail-enwyd ein Huned Troseddau Tân yn Dîm Lleihau Llosgi Bwriadol (TLl Ll B) i adlewyrchu ein rôl atal a lleihau'r stigma y gall dioddefwyr troseddau tân ei wynebu. Mae eu gwaith gyda gorsafoedd a phartneriaid yn parhau i helpu lleihau gosod tanau bwriadol ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, gan dargedu poethfannau lleol
- Mae gwaith mewn cymunedau yn elfen hanfodol o waith atal ac mae ein Tîm Ieuenctid wedi datblygu 'ymyrraeth carreg drws' newydd o'r enw Diffoddwr Tân Stryd fel rhan o'r Prosiect MYFYRIO. Ei nod yw adeiladu ac adfer cydberthnasau o fewn cymunedau trwy gynnig lle diogel i blant a phobl ifanc lleol ymgysylltu, meithrin hydwythdedd a sgiliau bywyd a dechrau creu llwybr at ddewisiadau bywyd cadarnhaol
- Rydym yn gweithio gyda BGC, Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) a Gweithredwyr Gwastraff ar fapio pob Awdurdod Unedol i sefydlu a oes cysylltiad rhwng amlder casglu sbwriel a thanau bwriadol

**Wedi gweithio i ddeall y rhai sydd fwyaf mewn perygl o fewn ein cymunedau** fel bydd ein hadnoddau lleihau risg wedi'u targedu'n fwy priodol a chyrraedd y rhai sydd fwyaf angen ein cymorth.

- Mae ein prosiect Gwerthuso Dysgu ar ôl Tân (LEAF) yn casglu gwybodaeth gan y rhai sydd wedi profi tân damweiniol mewn anheddau. Mae ymarferwyr Diogelwch Cymunedol yn cysylltu i ddeall effaith y digwyddiadau hyn yn well. Mae hyn yn ein helpu i ddeall sut y gallwn wella ein gwasanaethau, pa ddulliau diogelwch sy'n gweithio, a sut gallwn dargedu'r rhai mwyaf agored i risg yn ogystal â darparu cymorth ychwanegol lle bo angen

**Wedi archwilio cyfleoedd i wella'r ffordd rydym yn casglu gwybodaeth am adeiladau a lleoliadau eraill,** gan wneud cymunedau'n fwy diogel a gwella diogelwch Diffoddwyr Tân trwy ddatblygu ein gallu ymchwilio i dân, rhaglen archwilio adeiladau tyrrau uchel, cynlluniau rheoli tir a chasglu gwybodaeth gan griwiau mewn digwyddiadau gweithredol.

- Mae ein Tîm Diogelwch Rhag Tân i Fusnesau wedi helpu sefydlu fforwm gwaith gyda Llywodraeth Cymru, peirianwyr tân, a GTA Cymreig eraill i gynhyrchu rhaglen archwilio ar sail risg ar gyfer adeiladau tyrrau uchel
- Dechreuwyd datblygu gwybodaeth am reoli tir, gan barhau â'r gwaith o adnabod a meithrin cydberthnasau â thirfeddianwyr a phartneriaid a threialu trefniadau ar gyfer rhannu gwybodaeth am leoliadau risg uchel. Rydym wedi sicrhau bod data ychwanegol ar gael mewn digwyddiadau trwy Derfynellau Data Symudol (MDT) ac yn parhau i ddatblygu'r gallu hwn

**Hyrwyddo ymwybyddiaeth o ddiogelwch dŵr ymhlith ein cymunedau** i sicrhau bod ein negeseuon yn targedu lleoliadau a grwpiau sydd mewn mwy o berygl wrth rannu gwybodaeth gyda'n partneriaid.

- Buom yn gweithio gyda Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Badau Achub (RNLI) ar gynnwys negeseuon atal boddi mewn digwyddiadau Criw Craff i blant Blwyddyn 6/7
- Yng Ngorffennaf lansiwyd menter y Waterside Responder mewn partneriaeth â'r RNLI, gan ddarparu canllawiau am ddim a llinellau taflu i staff lleoliadau busnesau ger dŵr i helpu i atal achosion o foddi damweiniol sy'n ymwneud â'r economi gyda'r nos

**Ehangu ein mentrau diogelwch ffyrdd Opsiynau 30-20, Opsiynau Gwregysau Diogelwch a Domino (a anelir at bobl ifanc 15-25 oed),** gan barhau i hyrwyddo negeseuon ein hymgyrch Y Pump Marwol gan bwysleisio'r prif ffactorau sy'n cyfrannu at GTFf difrifol.

- Newid sylweddol eleni oedd lleihau'r terfyn cyflymder o 30 i 20mya ledled Cymru. Bu ein gorsafoedd a'n Tîm Diogelwch Ffyrdd yn gweithio gyda phartneriaid allweddol i gyflwyno

sesiynau addysgol cyn, ac ar ôl gweithredu. Rydym hefyd wedi ehangu'r modd byddem yn darparu'n hymgyrchoedd Diogelwch Ffyrdd eraill. Mae effaith y newidiadau cyflymder ffyrdd a'n hymgyrchoedd yn cael eu gwerthuso

Mae personél yr orsaf a'n Tîm Lleihau Risg yn ymgysylltu â'n cymunedau mewn amrywiaeth o ffyrdd, a dyma rai enghreifftiau o 2023-2024:

- Bu criwiau gorsaf ym Mro Morgannwg yn cydweithio â Heddlu De Cymru a Chyngor Bro Morgannwg i ddiogelu'r ardal adfeiliedig y tu ôl i Hinds Motors yn Y Barri fel na fydd mynediad i'r cyhoedd yn bosib. Ers i'r gwaith hwn gael ei gwblhau, chafwyd dim galwadau tân i'r ardal, ac mae ymddygiad gwrthgymdeithasol hefyd wedi lleihau'n sylweddol.
- Ym mis Hydref, mynychodd Gwylfa Goch yr Eglwys Newydd Barc Sglefrio Llanisien gyda'r Tîm Lleihau Llosgi Bwriadol, Skate Academy UK, a Heddlu De Cymru i addysgu grŵp o bobl ifanc am effaith cynnau tanau bwriadol yn ardal Llanisien, cyn Noson Galan Gaeaf a Noson Tân Gwyllt
- Gwahoddodd Gorsaf Trelái ddisgyblion Ysgol Gynradd i gymryd rhan mewn cystadleuaeth poster. Y wobr oedd ymweliad â'r Orsaf a gweld eu posteri am beryglon cynnau tanau yn dod yn arwyddion
- Ym Mrynmawr, mae criwiau'r orsaf a'n Tîm Lleihau Llosgi Bwriadol wedi bod yn gweithio'n agos gyda phartneriaid lleol i fynd i'r afael â'r broblem gynyddol o gynnau tanau bwriadol ac ymddygiad gwrthgymdeithasol gan gynnwys ymgyrch diogelwch tân ym Mharc Busnes Lakeside a chefnogi tîm rheoli'r parc busnes i weithredu mesurau diogelwch pellach

## Beth fyddwn yn gwneud yn 2024-2025

**Datblygu a gweithredu polisi ymateb diwygiedig ar gyfer Larymau Tân Awtomatig (LTA) gan gynnwys addysgu perchnogion a rheolwyr adeiladau am effaith galwadau ffug arnom ni a'u busnesau.**

Mae ymateb i alwadau ffug yn esgor ar gostau sylweddol o ran cyfleoedd i'n personél a'n hadnoddau. Mae Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub 2016 Llywodraeth Cymru yn adnabod bod lleihau galwadau ffug yn arbediad effeithlonrwydd allweddol ac mae hwn yn un o'n hamcanion gwella allweddol. Felly, byddwn yn cynnig polisi ymateb LTA diwygiedig a fydd yn galluogi gwaith ychwanegol ar leihau risg a hyfforddiant i sicrhau bod sgiliau rheng flaen yn cael eu dyrchafu. Bydd hyn hefyd yn lleihau nifer y peiriannau tân ar y ffyrdd, yn gostwng ein hôl troed carbon a gwneud ffyrdd yn fwy diogel. Gall ffocws ar larymau annomestig weld gostyngiad o hyd at 40% mewn LTA dros flwyddyn gyfan, neu ostyngiad cyffredinol o 25% o ran galwadau tân ffug.

**Gwella ein defnydd o ddata a chudd-wybodaeth i dargedu'r rhai sydd fwyaf agored i risg o dân, gan gynnwys ehangu'n defnydd o ffynonellau data gan bartneriaid a ffynonellau data allanol eraill.**

Bydd sicrhau bod ein systemau cofnodi a rhannu gwybodaeth risg yn effeithiol yn gwella cywirdeb y wybodaeth sydd ar gael i griwiau ac yn gwella targedu gweithgarwch. Bydd hyn yn cynnwys cwmpasu System Cudd-wybodaeth Weithredol (OIS) newydd fydd yn gwella llif gwaith ac effeithlonrwydd Diogelwch Tân i Fusnesau.

**Datblygu ymhellach ein dull integredig ac sy'n seiliedig ar risg o ddanfon adnoddau atal ac amddiffyn.**

Bydd cychwyn rhaglen brawf o wiriadau diogelwch tân mewn adeiladau annomestig gan griwiau gweithredol yn gwella'r gallu i gasglu gwybodaeth am gwmpas ehangach o adeiladau i gefnogi diogelwch Diffoddwyr Tân a chymunedau mewn digwyddiadau gweithredol.

Gweithredu unrhyw newidiadau sy'n angenrheidiol i'n Rhaglen Arolygu ar Sail Risg (Rh ASR)

yn seiliedig ar Ganllawiau drafft a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan y Cyngor Penaethiaid Tân Cenedlaethol (CPTC) ar anheddau risg a risg uchaf a blaenoriaethu ymyriadau diogelwch tân. Bydd hyn yn ein galluogi i fod yn gyson wrth ddiffinio a blaenoriaethu risg gan gynnwys penderfyniadau ar ymyriadau i leihau effaith tân, gan ddilyn arfer gorau'r sector.

**Dyrchafu ein hymdrechion i gyfleu negeseuon diogelwch dŵr i'r rhai mwyaf agored i risg.**

Bydd gweithio mewn partneriaeth â Diogelwch Dŵr Cymru a Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Badau Achub (RNLI) yn cefnogi ein gwaith tuag at ddiogelwch dŵr ac atal achosion o foddi ymhellach.

**Addysgu ac yn cynghori ar ofynion Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005 (GDT) a'r Ddeddf Diogelwch Tân 2021.**

Sicrhau bod rheolwyr gweithleoedd neu rannau cyffredin adeiladau sy'n cynnwys dau safle domestig neu fwy yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau a'u cynghori a'u cefnogi i gyflawni eu cyfrifoldebau.

**Paratoi ar gyfer effaith newid hinsawdd ar ein cymunedau (er enghraifft, cynnydd mewn tanau gwyllt a llifogydd) ac yn gweithio gyda'n partneriaid i leihau hyn.**

Buddsoddi mewn hyfforddiant, offer, addysg, a hydwythdedd cymunedol i sicrhau ein bod ni, ein partneriaid, nid yn unig gyda'n cymunedau yn barod ar gyfer y risg gynyddol i newid yn yr hinsawdd, llifogydd a thanau gwyllt, ond hefyd ein bod wedi gwneud popeth posib i liniaru eu heffeithiau pe baen nhw'n digwydd.




**Diffoddwr Tân ar y Stryd MYFYRIO**

Gall ymyriadau stepen y drws, megis **Diffoddwr Tân ar y Stryd MYFYRIO** gael effaith gadarnhaol ar gynhwysiant cymdeithasol yn ogystal â chynyddu cyflawniadau personol pobl ifanc 11-25 oed. Mae hyn yn ein helpu i gyflawni amcanion allweddol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol wrth roi llais i bobl ifanc gan ddarparu cymorth ac addysg.

Mae Ymladdwr Tân Stryd yn cynnwys Tîm Ieuenctid pwrpasol Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru ac yn defnyddio dull adferol i herio mathau penodol o benderfyniadau. Mae hyn yn helpu'r plant a'r bobl ifanc sy'n cymryd rhan i ddatblygu rhinweddau iachach gan gynnwys teimlo'n rymus, cynyddu hyder a hunanwerth, gwella cydberthnasau a magu ymdeimlad o berthyn i'w cymunedau.

**Tudalen gwefan MYFYRIO** (yn cynnwys gwybodaeth am bwyntiau cyswllt)

**Erthygl newyddion am Ddiffoddwr Tân ar y Stryd MYFYRIO**

# Ymateb i'ch argyfwmng

## Yn Cefnogi'r Nodau Llesiant isod:

Cymru gydnerth

Cymru iachach

## Beth mae hyn yn ei olygu?

O Gyd-reoli Tân (CRT) yn derbyn galawad frys hyd at weithredoedd ein criwiau mewn digwyddiadau a chyngor a chymorth lleihau risg yn dilyn digwyddiad, rydym yn canolbwyntio ar sicrhau'r canlyniad gorau i bawb gan gynnwys ein personél.

Mae sicrhau bod ein hymateb yn effeithiol yn dibynnu ar ein criwiau i fod ar gael ac wedi'u hyfforddi'n briodol fel y byddant yn barod i fynd i'r afael â'r sefyllfaoedd maent yn eu hwynebu. Mae ein Hadran Hyfforddi yn sicrhau bod cyrsiau'n cael eu darparu i baratoi ein criwiau ar gyfer y galw presennol ac i'r dyfodol, gan gynnal sesiynau trafod ar ôl-ddigwyddiadau i adnabod arfer da a meysydd i'w gwella.

Mae'r ffocws hwn ar ymateb yn effeithlon ac yn effeithiol i unrhyw argyfwng yn rhoi sicrwydd ein bod yn barod i ddiwallu anghenion newidiol ein cymunedau, o boblogaeth sy'n heneiddio, i effeithiau newid hinsawdd neu ymddangosiad technoleg newydd megis cerbydau trydan.

Bydd cyfeiriad Llywodraeth Cymru ar weithredu'r holl argymhellion adolygiadau thematig y Prif Gynghorydd Tân ac Achub yn cael eu datblygu a'u gyrru yn eu blaen mewn partneriaeth gymdeithasol i sicrhau effeithiolrwydd gweithredol parhaus y Gwasanaeth. Bydd cynlluniau i leihau mynychu Galwadau Ffug trwy ganolbwyntio ar ymateb i Larwm Tân Awtomatig (LTA) yn cael eu datblygu gyda gweithredu'n darparu mwy o gapasiti ar gyfer hyfforddiant a datblygu sgiliau. Fodd bynnag, bydd y newid hwn yn cyflwyno heriau mewn meysydd eraill megis CRT lle rydym yn disgwyl cynnydd yn y galwadau sy'n cael eu herio.

O ran ein Diffoddwyr Tân Ar Alwad, byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar gynnal rhaglen recriwtio a chadw a fydd yn sicrhau ein hargaeledd ac yn cydnabod y cyfraniad pwysig i'n cymunedau.

**Sicrhau ein bod yn ymateb yn sydyn ac effeithio pan fyddwch ein hangen**

### Byddwn yn ymateb i'ch argyfwng wrth:

- Ymateb yn effeithiol pan fyddwch ein hangen
- Gwneud popeth o fewn ein gallu i sicrhau bod ein criwiau System Ddyletswydd Ar Alwad (SDd AA) ar gael
- Hyfforddi ein Diffoddwyr Tân, staff CRT a staff eraill i ymateb i risgiau cyfredol a rhai'r dyfodol o fewn ein cymunedau

### Rydym yn mesur ein cynnydd wrth fonitro:

- Galwadau a dderbyniwyd a digwyddiadau a fynychwyd
- Gweithgareddau recriwtio
- Gweithgareddau hyfforddi a datblygu

### Beth wnaethom yn 2023-2024

**Adolygu strwythur CRT a gweithgareddau recriwtio** i sichrau ymateb effeithlon ac effeithiol i alwadau brys gan ein tîm profiadol a hyfforddedig.

Fel y man cyswllt cyntaf, a rhan annatod o'n hymateb, mae cynyddu hydwythdedd ein CRT wedi bod yn flaenoriaeth.

- Ymunodd saith o recriwtiaid newydd â'r CRT a chwblhau eu datblygiad cymhwysedd eleni. Cynlluniwyd ymgyrch recriwtio arall ar gyfer dechrau 2024-2025
- Cynyddodd yr isafswm criwio ar wylfeydd i saith ac rydym yn gweithio tuag at gynnydd pellach i wyth gydag uchafswm o 12 criw fesul gwylfa yn 2024

**Sicrhau bod ein systemau ar gyfer cofnodi a rhannu gwybodaeth risg yn cefnogi ein gweithgareddau yn effeithiol** fel bod gwybodaeth ar gael i'r rhai sydd ei hangen pan fo ei hangen.

- Adolygwyd a diwygiwyd y strwythur ar gyfer gweithgorau gweithredol, gan egluro'r prosesau gwneud penderfyniadau ac adnabod arweinwyr ffrydiau gwaith i gynnal trosolwg effeithiol
- Rydym wedi mapio a gwella'r llif adrodd ar gyfer Gwybodaeth Risg Safle Penodol (GRSP), gan wella'r wybodaeth sydd ar gael i'n criwiau a pharatoi ar gyfer gwaith ar System Cudd-wybodaeth Weithredol (OIS) newydd, i'w rhoi ar waith yn y flwyddyn ariannol nesaf
- Mae timau Lleihau Risg yn datblygu ein cronfa ddata Diogelu i rannu gwybodaeth rhwng y timau Diogelu ac Ymyrraeth Diogelwch Tân. Bydd hyn yn gwella ein heffeithlonrwydd wrth adnabod a chefnogi'r rhai sydd fwyaf mewn angen
- Mae ein Tîm Ieuenctid wedi datblygu Ffurflen Ymholiad Ymyrraeth Ieuenctid sy'n galluogi rhieni a gweithwyr proffesiynol i atgyfeirio plentyn neu berson ifanc i'r Gwasanaeth. Bydd gwybodaeth am hyn yn cael ei chyhoeddi yn y flwyddyn ariannol newydd

**Cynnal ymchwil i ymateb brys i danau sy'n ymwneud â cherbydau trydan** i gefnogi ein datblygiad i gwrdd â risgiau a gofynion newidiol.

- Fe wnaethom sefydlu gweithgor yn canolbwyntio ar ein hymateb brys i danau yn ymwneud â cherbydau trydan a digwyddiadau eraill sy'n ymwneud â batris lithiwm. Gydag ymatebion newydd ac arloesol yn dod i'r amlwg, cafodd opsiynau eu cwmpasu a byddant yn cael eu treialu yn y flwyddyn ariannol newydd

**Sicrhau bod ein rhaglenni hyfforddi yn paratoi ein staff ar gyfer heriau'r dyfodol** - yn ogystal ag ystyried hyfforddiant gweithredol a'r galw ar y Gwasanaeth i'r dyfodol, rydym yn cefnogi staff yn eu llwybrau datblygu gyrfa dewisol.

- Yn yr Ystafell Rheoli Tân ar y Cyd, cymhwysodd wyth aelod o staff fel Ymgynghorwyr Tactegol Cyfathrebu Airwave a daeth pedwar yn gymwys fel Swyddogion Cyswllt Rheoli Cenedlaethol. Ein nod yw adeiladu ar hyn wrth i ni ganolbwyntio ar ddatblygiad proffesiynol parhaus staff yr CRT
- Cydweithiodd ein Tîm Datblygu ac Adolygu Gweithredol â Gwobrau Sgiliau er Cyfiawnder i ddod yn Wasanaeth Tân ac Achub cyntaf i ddatblygu cymwysterau achrededig ar gyfer ymateb i Danau Gwyllt. Mae tair lefel yr hyfforddiant yn ymestyn o ymwybyddiaeth i reolwyr goruchwyliol a thactegol a chydymffurfio â Chanllawiau Gweithredol Cenedlaethol
- Gan ddefnyddio canfyddiadau Adolygiad Thematig Llywodraeth Cymru "Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru: Dysgu o Grenfell" a Chanllawiau Gweithredol Cenedlaethol, mae ein Gweithgor Adeiladau Tyrrau Uchel wedi datblygu Gweithdrefn Weithredol Safonol (GWS) a Chanllawiau Gwacáu newydd. Mae gwaith gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro wedi sicrhau cyfleuster preswyl adeilad uchel iawn lle gellir addysgu'r canllawiau newydd a'r GWS mewn senarios gwirioneddol. Cynhaliwyd pump ymarfer gyda staff Gweithredol a staff yr CRT yn cymryd rhan a threfnwyd 20 dyddiad i sicrhau bydd pob gwylfa Ddyletswydd Gyflawn yn derbyn hyfforddiant erbyn diwedd y flwyddyn nesaf
- Bu'r Gweithgor Adeiladau Tyrrau Uchel Iawn yn cydweithio hefyd â'n tîm Offer Anadlu (OA) i ddatblygu cwrs aml-lawr i Swyddogion Tactegol, a rhaglen hyfforddiant llenni mwg, i'w darparu o fis Ebrill 2024 ymlaen

**Archwilio cyfleoedd i gynyddu'r hyfforddiant ar-lein a ddarperir i ddatblygu cymhwysedd gweithredol**, gan alluogi darparu hyfforddiant yn fwy hyblyg, ei integreiddio â gweithgareddau gweithredol, gan leihau'r angen i deithio i leoliad canolog.

- Roedd yr adolygiad o'n cwrs OA dwy flynedd yn cynnwys dechrau datblygu cynnwys ar-lein ar gyfer adrannau priodol i wneud y cwrs yn fwy hygyrch a hyblyg i'n staff

**Hyrwyddo swyddi gwag trwy ddefnydd ehangach o'r cyfryngau cymdeithasol a gweithgareddau ymgysylltu wyneb yn wyneb** - gan gynnwys calendr o sesiynau Ffitrwydd i Diffoddwyr Tân a chymryd rhan mewn ffeiriau gyrfaoedd, fe wnaethom godi ymwybyddiaeth o gyfleoedd gyrfa, ac mae recriwtio Diffoddwyr Tân Ar Alwad wedi parhau yn flaenoriaeth.

- Defnyddiodd gorsafoedd ddigwyddiadau cymunedol lleol, gan gynnwys y rhai ar safleoedd gorsafoedd, i hyrwyddo cyfleoedd recriwtio. Maent yn parhau i weithio gyda Sgiliau er Cyfiawnder i ddod o hyd i ymgeiswyr addas, gan wahodd pobl i gymryd rhan yn eu nosweithiau ymarfer sy'n rhoi cyfle i brofi rhai agweddau o'r rôl a chwrdd â'r criwiau
- Penodwyd mis Awst yn fis Ar Alwad gennym a gweithiodd cydweithwyr yn y Cyfryngau a Chyfathrebu gyda staff ar draws y Gwasanaeth i ddatblygu ymgyrch recriwtio newydd. Gan ddefnyddio'r slogan "Yr un Sgiliau, gwahanol rolau, byddwch yn fwy gydag Ar Alwad', cynhyrchwyd nifer o fideos i ddangos sut gall sgiliau o gyflogaeth arall drosglwyddo i rôl Diffoddwr Tân Ar Alwad. Defnyddiwyd tudalennau rhyngrwyd newydd gyda gwybodaeth berthnasol, negeseuon sianeli cyfryngau cymdeithasol, posteri a deunyddiau hyrwyddo arall i gyrraedd cymaint o bobl â phosib

**Datblygu a chyflwyno manyleb newydd ar gyfer peiriannau tân 4x4** - i ddyrchafu ein gallu i ymateb gydag ystwythder ychwanegol.

- Prynwyd saith peiriant tân Scania newydd sy'n gallu danfon dros 3,000 litr o ddŵr y funud gyda lle i hyd at chwe aelod o'r criw. Mae tri o'r saith siasi a archebwyd ar gyfer peiriannau tân 4x4 "addas i'r diben" wedi cael eu dosbarthu i'r gwneuthurwyr ar gyfer adeiladu'r corff a disgwylir eu cwblhau ym mis Ebrill 2024

Mae enghreifftiau eraill o waith yn y maes hwn yn cynnwys:

- Dyfarnwyd Gwobr Rhagoriaeth Gweithredol i Wylfa Werdd CRT ym Mehefin am y canllawiau goroesi a ddarparwyd ganddynt mewn digwyddiad, law yn llaw â nifer o ddigwyddiadau trawmatiug eraill yn ystod un shifft nos
- Cafodd Gwylfeydd Gwerdd Ganol Caerdydd a'r Rhath eu dyfarnu â Gwobr Rhagoriaeth Weithredol ar ôl achub tri phlentyn o dân mewn adeilad aml-lawr cymhleth yng Nghaerdydd
- Enillodd Tîm Datglymu Pen-y-bont ar Ogwr y safle cyntaf yn Her Achub Trwm Rhanbarthol Avon SADU, gan ddod yn drydydd yn y Senario Rhyddhau Safonol ac yn drydydd yn y Byd i Gyd yn yr Her Datglymu Byd-eang
- Yn Hydref, fe wnaethom gymryd rhan yn yr ymarfer amlasiantaeth (prosiect WorldWater) a oedd yn cynnwys criwiau yn mynychu gweithgareddau achub o lifogydd a dŵr ar draws y rhanbarth, i helpu i ddarparu ymagwedd gyson mewn llifogydd eang
- Fe wnaethom drefnu efelychiad GTFf undydd o wrthdrawiadau ar y ffyrdd a oedd yn cynnwys Prifysgol Caerdydd, Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru (WAST), Heddlu De Cymru, a Medserve (BASICS) yn ogystal â phersonél yr CRT a staff Gweithredol, sef cyfanswm o dros 100 o gyfranogwyr. Roedd y digwyddiad yn cynnwys senarios bywyd gwirioneddol i fyfyrwyr meddygol eu profi a dysgu sut i weithio gydag eraill mewn argyfwng

## Beth fyddwn yn gwneud yn 2024-2025

**Adolygu ein rhaglen hyfforddi gweithredol mewn ymateb i argymhellion Adolygiad Thematig Llywodraeth Cymru o hyfforddiant gweithredol o fewn Gwasanaethau Tân ac Achub De Cymru.**

Byddwn yn parhau gwaith ar adolygu ein rhaglenni hyfforddi i bersonél gweithredol, sy'n cael ei harwain gan ein gweithgor Effeithiolrwydd ac Effeithlonrwydd.

**Gwneud newidiadau i'n cyrsiau hyfforddi gyrwyr mewn ymateb i gyflwyno Adran 19 o Ddeddf Diogelwch Ffyrdd (2006).**

Mae'r ddeddfwriaeth hon yn cynnwys eithriadau rhag terfynau cyflymder ar gyfer cerbydau gwasanaethau brys a byddwn yn adlewyrchu hyn yn yr hyfforddiant i'n gyrwyr a'n hyfforddwyr ymateb brys. Bydd hyn, ynghyd â Fframwaith Ymateb Brys i Yrwyr y Bwrdd Safonau Tân, yn helpu cynnal a gwella'r safonau uchel yr ydym wedi'u datblygu.

**Datblygu cydweithio drwy law grŵp Rheolwyr Hyfforddiant Cymru Gyfan, gan ganolbwyntio ar yr hyn y gellir ei gyflawni ac integreiddio â gweithgorau sy'n seiliedig ar risg.**

Y prif fanteision yw safoni hyfforddiant ledled Cymru, adnabod unrhyw dueddiadau mewn canlyniadau asesu aflwyddiannus, ac asesu cyrsiau ac aseswyr gan gyfoedion yn ôl yr angen.

**Gweithredu canlyniadau ein hadolygiad strategol Ar Alwad mewnol.**

Bydd hyn yn cynnwys adnabod opsiynau a strategaethau i ddatblygu a gwella recriwtio, cadw, hyfforddi a chontractau cyflogaeth.

Cynlluniwyd cwrs cychwynnol newydd wythnos o hyd i'w ddilyn gan gwrs OA ddwy wythnos o hyd. Bydd hyn yn galluogi newydd-ddyfodiaid i gynyddu contractau wrth gychwyn yn y gwaith ac fe'i cyflwynir yn dilyn cyfnod peilot yn 2023 - 2024.

**Diweddaru/uwchraddio systemau ar gyfer CRT.**

Byddwn yn gweithio gyda Heddlu De Cymru a Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru i sicrhau cydnawsedd rhwng ein systemau, gosod caledwedd newydd i sicrhau bod systemau CRT yn hydwyth ac yn effeithlon ac yn parhau i gefnogi cyflwyno Trosglwyddo Digwyddiad Amlasiantaethol (MAIT) wrth gysylltu â WAST.

### Gwaith tîm Cyd-reoli Tân



Gall galwadau i'n Cyd-reoli Tân (CRhT) fod yn gymhleth - mae'r gweithredwr sy'n cymryd yr alwad gychwynnol yn danfon ein hymateb ac yn canolbwyntio ar y galwr, gan drosglwyddo gwybodaeth i gydweithwyr yn CRhT er mwyn cydlynu cymorth pellach gan ein timau neu asiantaethau eraill. Mae un goruchwyliwr yn cefnogi'r gweithredwr, tra bod un arall yn goruchwylio dilyniant yr holl gamau ac yn sicrhau bod galwadau eraill yn cael eu rheoli a'u monitro'n effeithiol. Mae'r gweithredwr cyntaf yn siarad â'r galwr o hyd i'w helpu i gadw'n ddiogel nes i'r criwiau gyrraedd, a gelwir hyn yn "ganllaw goroesi tân". Mae angen yr wylfa gyfan yn rhan o ymateb effeithiol i alwad.

Ym Mehefin 2023, derbyniodd Wylfa Werdd Cyd-reoli Tân alwad i dân mewn tŷ. Pan gyrhaeddodd y criwiau, gwelon nhw dân sefydledig ar y llawr gwaelod a chawsant gadarnhad bod pobl yno. Roedd rhaid rheoli'r digwyddiad yn ofalus cyn gallu mynd i'r adeilad. Daethpwyd o hyd i'r claf a rhoddwyd adfywio cardio-pwlmonaidd (CPR) cychwynnol iddo cyn i gydweithwyr meddygol gyrraedd. Dywedodd y Gwasanaeth Adalw a Throsglwyddo Meddygol Brys (GATh MB) yn y lleoliad fod gweithredu gan y criwiau oedd yn bresennol a chanllawiau goroesi tân wedi achub bywyd y person hwn heb os nac oni bai. Cydnabuwyd effeithlonrwydd a phroffesiynoldeb rhagorol Wylfa Werdd Cyd-reoli Tân yn ystod y digwyddiad hwn trwy ddyfarnu gwobr Rhagoriaeth Weithredol iddynt.

# Gweithio gyda phartneriaid

## Yn Cefnogi'r Nodau Llesiant isod:

Cymru gydnerth

Cymru o gymunedau cydlynus

Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

Cymru lewyrchus

## Beth mae hyn yn ei olygu?

O ganlyniad i'n gwaith gyda phartneriaid ar draws y rhanbarth ac o fewn y sector tân ac achub, rydym yn darparu gwelliannau i wasanaethau ar gyfer cymunedau De Cymru. Mae cydweithio ag eraill yn golygu ein bod yn osgoi dyblygu adnoddau, gan wneud y defnydd gorau o arian cyhoeddus. Mae hefyd yn creu profiad gwell i'r cyhoedd wrth i'n dealltwriaeth o sefydliadau a gwasanaethau eraill gynyddu – gallwn gyfeirio at ddarparwyr eraill a gallant hwythau cyfeirio atom. Mae gwaith o fewn y sector yn sicrhau ein bod yn rhannu ac yn mabwysiadu arfer gorau, ac rydym yn ymwneud ag amrywiaeth o fforymau a gweithgorau i sicrhau bod ein gallu gweithredol yn effeithiol.

Mae ein partneriaethau a'n cydweithrediadau yn cael eu hadolygu'n rheolaidd i sicrhau defnydd effeithiol o adnoddau a sicrhau'r buddion mwyaf posibl. Wrth i bartneriaethau ddatblygu, chwiliwn am gyfleoedd ar gyfer cydweithredu pellach.

Fel partner statudol o'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) o fewn yr ardal yr ydym yn ei gwasanaethu, rydym yn cefnogi cyflawni Cynlluniau Llesiant a blaenoriaethau lleol i sicrhau bod ein gweithgareddau yn cyflawni gwelliannau hirdymor i bobl o fewn cymunedau. Mae llawer o'n gorsafoedd tân ac achub yn ganolbwynt gweithgareddau cymunedol ac mae ganddynt gyd berthnasau gwerthfawr gyda grwpiau lleol, tra bod ein Tîm Lleihau Llosgi Bwriadol yn gweithio'n agos gyda phartneriaid Diogelwch Cymunedol i leihau trosedd ac anhrefn.

Bydd cyflawni canlyniadau yn erbyn y thema hon yn ymgorffori gweithio gyda phartneriaid ymhellach o ran ein gweithgareddau.

**Gweithio â BGC De Cymru a phartneriaid eraill i ddarparu gwasanaeth tân ac achub sy'n cwrdd â'ch anghenion**

### Byddwn yn gweithio gyda'n partneriaid yn y ffyrdd canlynol:

- Gweithio gyda Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) i gefnogi ein cymunedau
- Gweithio gyda'n partneriaid i ddarparu ein gwasanaethau lle mae eu hangen
- Adolygu ac adeiladu ar ein partneriaethau cyfredol yn barhaus, gan ymgorffori egwyddorion partneriaeth gymdeithasol

### Rydym yn mesur ein cynnydd wrth fonitro:

- Cytundebau a gweithgareddau partneriaeth
- Ymgysylltu â BGC
- Ein hystod o bartneriaethau a chydweithrediadau

### Beth wnaethom yn 2023-2024

**Mapio ein gweithgareddau gweithio â phartneriaid cyfredol a chytundebau rhannu data** gan ein helpu i adnabod a datblygu cyfleoedd newydd ar gyfer cydweithio.

- Mae Diogelwch Cymunedol yn adolygu eu trefniadau partneriaeth a bydd recriwtio Swyddog Partneriaeth a ddigwyddodd yn ddiweddar yn sicrhau bydd yr adolygiad yn cael ei gwblhau yn ogystal â adnabod cyfleoedd partneriaeth newydd yn 2024-2025

- Mae proses atgyfeirio ar gyfer **Ambiwlans Sant Ioan Cymru** wedi'i sefydlu ac mae gwaith yn parhau gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru i ddefnyddio Codi a Chario GIG Cymru Gyfan i adnabod llwybr atgyfeirio ar gyfer cleifion bariatrig
- Rydym wedi cefnogi Grŵp Ystadau'r Gwasanaethau Brys ar y Cyd (JESEG) i edrych ar ffyrdd mwy effeithiol o weithio gyda gwasanaethau golau glas eraill. Mae Map Data Cymru wedi cael ei adnabod fel arf addas ar gyfer rhannu gwybodaeth ac rydym yn barod i ddechrau treialu hyn
- Mewn cydweithrediad â Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru (GTACGC) rydym wedi adnabod proses effeithiol a drafftio cytundeb rhannu data i alluogi rhannu gwybodaeth risg ar gyfer digwyddiadau dros y ffin. Yn 2024 gobeithiwn gwblhau'r gwaith hwn, a fydd yn ein galluogi i adnabod, rhannu a chael mynediad at wybodaeth er mwyn gwella ein gwasanaethau

**Adolygu a dyrchafu ein perthynas â phartneriaid Fforwm Lleol Cymru Gydnerth (Ff Ll CG) a Hydwythdedd Cenedlaethol yng Nghymru** - i sicrhau dull cydlynol a chydweithredol o ymdrin â risgiau, bygythiadau a niwed i'n cymunedau yn unol â risgiau sy'n dod i'r amlwg.

Mae grwpiau Ff Ll CG yn bartneriaethau aml-asiantaeth sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r gwasanaethau cyhoeddus lleol, gan gynnwys y gwasanaethau brys, awdurdodau lleol, GIG, ac eraill. Gelwir yr asiantaethau hyn yn Ymatebwyr Categori 1, yn unol â diffiniad y Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl.

- Rydym wedi sicrhau bod gennym gynrychiolaeth ym mhob grŵp i sicrhau ymagwedd gydlynol a chydweithredol at risgiau, bygythiadau a niwed i'n cymunedau yn unol â risgiau sy'n dod i'r amlwg

**Wrth i BGC lansio eu Cynlluniau Llesiant Lleol 2023-2028, fe wnaethom sicrhau ein hymgysylltiad parhaus** gan ein galluogi i ddeall yn well yr heriau a wynebir gan ein cymunedau ac i gefnogi'r rhai mwyaf eu hangen.

- Mae ein gwaith gyda Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) yn parhau i gael ei gefnogi gan Reolwyr Grŵp o bob Awdurdod Unedol (AU) ac, yn dilyn ailstrwythuro is-grwpiau BGC, mae Penaethiaid Gorsaf wedi'u dyrannu i'r is-grwpiau hyn i sicrhau ein cynrychiolaeth ar bob lefel

**Adolygu ein trefniadau gweithio gydag asiantaethau allanol i sicrhau cefnogaeth addas ar gyfer ein darpariaethau iechyd meddwl i staff** - i sicrhau ein bod yn cynnig ystod effeithiol o ran cefnogi ein staff.

- Yn ddiweddar rydym wedi caffael Rhaglen Cymorth i Weithwyr newydd i gefnogi gweithwyr gydag arweiniad a chwnsela, rydym yn parhau i weithio gyda **Mind** ar gyfer iechyd meddwl ac asiantaethau eraill

Mae enghreifftiau o waith arall sy'n cynnwys partneriaid eleni yn cynnwys:

- Cynhaliodd timau Adnoddau Cymunedol Caerdydd a'r Fro **glinigau "Cadw'n Sefydlog"** yng Ngorsafoedd Tân ac Achub y Rhath a'r Barri a chynhaliodd ffisiotherapyddion GIG glinigau cwympiadau o'r Rhath a'r Eglwys Newydd. Mae staff ffisiotherapi GIG wedi cael hyfforddiant gan ein Tîm Diogelwch Cymunedol am yr hyn i chwilio amdani a sut i atgyfeirio pobl ar gyfer ymweliadau Diogelwch Cartref. Y flwyddyn nesaf, mae Tîm Cwympiadau Pen-y-bont ar Ogwr yn bwriadu cynnal clinigau "Cadw'n Sefydlog" mewn gorsafoedd o fewn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg
- Wrth rannu safle, mae Abercarn wedi croesawu Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru (WAST) i rannu safle eu gorsaf ac felly mae dau gerbyd cludo cleifion yn gweithio o'r safle hwn ar hyn o bryd
- Mae Tîm Hyfforddi Gyrwyr Uwch y Gwasanaeth a Heddlu De Cymru wedi datblygu rhaglenni hyfforddi integredig sy'n mynd i'r afael â'r heriau unigryw a wynebir gan yrwyr y Gwasanaeth Tân ac Achub a'r Heddlu. Gyda'r cwricwlwm hyfforddi wedi'i gynllunio i feithrin dealltwriaeth gynhwysfawr am ddeinameg cerbydau, protocolau ymateb brys, a strategaethau cyfathrebu effeithiol

- Arloesodd Gwylfa Las Gorsaf Dân Y Rhath fenter newydd yn 2023, gan ddarparu ymwybyddiaeth golau glas i yrwyr bysiau Depo Bysiau Caerdydd. Defnyddiodd yr Wylfa wybodaeth, fideos, a chyngor i helpu addysgu gyrwyr am beth i'w wneud pan fydd cerbydau golau glas yn mynd heibio/yn agosáu ar ffyrdd yn Ne Cymru. Mae'r fideos gwybodaeth hyn bellach wedi'u hychwanegu at raglenni hyfforddi gyrwyr Bysiau Caerdydd. Wedi'u hysbrydoli gan eu llwyddiant, mae'r Wylfa erbyn hyn yn bwriadu cynnig y fenter i gwmnïau bysiau eraill yng Nghaerdydd
- Mae Diogelwch Cymunedol wedi datblygu proses Pryderon Proffesiynol newydd sydd wedi darparu atgyfeiriadau i'n hybiau Diogelu Aml-asiantaeth (MASH). Mae hyfforddiant yn cael ei ddiweddaru ar ein system hyfforddi electronig (Ehyb) i scrhau bydd y staff cyfan yn derbyn y lefel briodol o ddealltwriaeth ar gyfer eu rôl

## Beth fyddwn yn gwneud yn 2024-2025

**Byddwn yn gweithio ar y cyd â'n partneriaid i adnabod y rhai sydd fwyaf mewn perygl yn ein cymunedau.**

Yn aml, cyswllt cyfyngedig sydd gan y rhai sydd fwyaf mewn perygl â gwasanaethau cymorth. Felly byddwn yn gweithio gydag asiantaethau partner i sicrhau bod llwybrau atgyfeirio yn cael eu rhannu a'u cyfeirio, a byddwn yn monitro ein hatgyfeiriadau i'w danfon ymlaen at asiantaethau eraill.

Er mwyn atal cynnau tanau bwriadol, byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i ddarparu ymyriadau priodol, effeithiol a dargedwyd gan gynnwys cymryd camau cadarnhaol i fynd i'r afael ag adeiladau anniogel, gwag ac adfeiliedig sy'n peri risg i'r gymuned ac i'n Diffoddwyr Tân.

Adolygu a dyrchafu'r cydberthnasau weithio â Fforwm Lleol Cymru Gydnerth Gwent, Fforwm Lleol Cymru Gydnerth De Cymru a Hydwythdedd Cenedlaethol yng Nghymru i sicrhau dull cydlynol a chydweithredol ar gyfer ymdrin â risgiau, bygythiadau a niwed i'n cymunedau yn unol â risgiau sy'n dod i'r amlwg.

**Gwella ein trefniadau rhannu data i gefnogi gweithio â phartneriaid.**

Bydd gweithio gyda'n partneriaid i rannu gwybodaeth yn eithafu gwerth ein data ac yn ein galluogi i rannu darlun cyfoethocach o'n cymunedau.

Adeiladu ar ein gwaith gyda gwasanaethau tân ac achub eraill i sicrhau ein bod yn gwneud y defnydd gorau o ddata i feincnodi a monitro ein gweithgareddau, gan gynnwys gwaith gyda Gwasanaethau tebyg a GTA Cymru.

**Datblygu ein trefniadau ar gyfer gweithio mewn partneriaeth i sicrhau bod y rhai sy'n cymryd rhan yn gallu manteisio i'r eithaf ar eu cyfranogiad.**

Gan adeiladu ar lwyddiant gwaith ym maes hyfforddiant ac addysg gydweithredol am y gwasanaethau y gallwn eu darparu, byddwn yn asesu'r effaith a geir ar ein darpariaeth gwasanaethau gan gefnogi asiantaethau eraill.

Datblygu gweithio cydweithredol ymhellach gyda phartneriaid Grŵp Cyfoedion Iechyd a Diogelwch, GTACGC a Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (GTAGC), gan sicrhau cyfathrebu rheolaidd a hyrwyddo cyd-ddealltwriaeth a phrosesau meincnodi.

Archwilio'r potential i ddyrchafu ein gwaith cydweithredol â gwasanaethau tân ac achub eraill mewn perthynas â datblygu dysg a sgiliau a datblygu cyfleoedd newydd ar gyfer cyfnewid.

Parhau i ddatblygu ein monitro o weithgareddau partner i sicrhau bydd yr ymestyniad a'r gefnogaeth mwyafsymiol gennym, gan gynhyrchu dadansoddiad o fylchau i adnabod cyfleoedd newydd.

**Eithafu cyfleoedd ar gyfer cydleoli a hyblygrwydd, gan addasu'r portffolio eiddo yn unol â risgiau cymunedol a gofynion gweithredol newydd.**

Bydd hyn yn datblygu ein cefnogaeth i strategaeth cydleoli Grŵp Ystadau'r Gwasanaethau Brys ar y Cyd (JESEG) wrth archwilio cydleoliadau pellach gyda'n partneriaid gwasanaethau brys.

# Cynnwys a chyfathrebu

## Yn Cefnogi'r Nodau Llesiant isod:

- Cymru gydnerth
- Cymru o gymunedau cydlynus
- Cymru sy'n fwy cyfartal
- Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu

## Beth mae hyn yn ei olygu?

Mae ein cynlluniau'n cael eu llywio gan gyfathrebu – yr adborth a gawn, trafodaethau i archwilio a deall risg, rhannu gwybodaeth ac arfer gorau o fewn y sector a gyda'n partneriaid mewn meysydd gweithgarwch eraill. Mae cyfathrebu effeithiol yn rhoi'r cyfle i ni lunio ein dyfodol mewn cydweithrediad â'r rhanddeiliaid a'r cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu.

Mae'r angen am welliannau mewn cyfathrebu wedi cael ei amlygu'n gyson mewn adborth i'r ymgynghoriad ac yn thema allweddol yn yr ADA a gynhaliwyd yn ddiweddar. Rhaid i ni wella ein cyfathrebu mewnol er mwyn sicrhau bod ein staff yn fwy gwybodus ac yn ymgysylltu mwy, a bydd hyn hefyd yn cefnogi newid diwylliannol cadarnhaol. Mae angen i ni hefyd sicrhau mwy o dryloywder wrth adrodd er mwyn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen i randdeiliaid a'r cyhoedd, a chodi ymwybyddiaeth o'n gweithgareddau a'r effaith gadarnhaol a gawn yng nghymunedau De Cymru. Bydd y newid hwn yn cael ei ddarparu fel rhan o strategaeth gyfathrebu gyfansymiol.

Cwestiwn allweddol ar gyfer y flwyddyn nesaf, wrth ymateb i heriau'r ADA a chraffu ehangach gan Lywodraeth Cymru, fydd "sut olwg fydd ar ein dyfodol?" Bydd angen eglurder a phwrpas ar gyfer dyfodol cadarnhaol, a bydd llawer o hyn yn cael ei ddatblygu gan weithgorau a arweinir gan staff, sy'n gyfrifol am feysydd o argymhellion yr ADA.

**Sicrhau bydd ein holl gymunedau a staff yn cael eu cynnwys wrth ein helpu ni i ddarparu gwasanaeth rhagorol**

### Byddwn yn cynnwys a chyfathrebu wrth:

- Cynnwys ein cymunedau, sichrau eu bod yn cael dweud eu dweud yn yr hyn a wnawn
- Helpu cadw ein cymunedau'n ddiogel wrth ddarparu addysg diogelwch a mynychu digwyddiadau cymunedol
- Sicrhau ein bod yn datblygu a hyrwyddo sianeli cyfathrebu o fewn y Gwasanaeth
- Cydnabod rôl partneriaeth gymdeithasol, datblygu cydberthnasau agored a thryloyw ymhellach gyda rhanddeiliaid

### Rydym yn mesur ein cynnydd wrth fonitro:

- Ymatebion a dderbyniwyd gan arolygon a mentrau ymgysylltu
- Ymgysylltu drwy law ein Cofrestr Rhanddeiliaid
- Gweithgareddau cymunedol lleol
- Gweithgarwch cyfryngau cymdeithasol
- Ymgysylltu â fforwm Shout, ein sesiynau cyfathrebu mewnol â staff

### Beth rydym wedi gwneud yn 2023-2024

**Ehangu a hyrwyddo sianeli sy'n galluogi ein staff a rhanddeiliaid i roi adborth a sylwadau ar ein cynlluniau a'n gwasanaethau** i wella ein gallu i dderbyn adborth gan staff ac aelodau o'n cymunedau.

Rydym yn cydnabod mai man cychwyn derbyn adborth safonol yw argaeledd gwybodaeth. Rydym yn adolygu'r systemau a ddefnyddiwn a'r ffordd rydym yn cyflwyno gwybodaeth yn barhaus i wella hygyrchedd ond eleni rydym wedi:

- Ailwampio ein Cynllun Gwella Blynyddol i ddarparu gwybodaeth ar lefel leol ac ailgynllunio'r arolwg er mwyn iddo fod yn haws i'w gwblhau. Cefnogwyd hyn gan fersiwn "Darllen Sydyn" a dderbyniodd adborth cadarnhaol

- Datblygu a hyrwyddo ystod o sianeli, gan gynnwys dod yn wasanaeth tân ac achub cyntaf i gyflwyno llinell gyngor a gwefan Crimestoppers Speak Up, yn ogystal ag ail-lansio fforwm Shout, sy'n rhoi cyfle cyson i'r Gwasanaeth cyfan rannu gwybodaeth a thrafod. Defnyddiwyd y fformat hwn i ymgysylltu â staff mewn cyfres o ddigwyddiadau ar draws y Gwasanaeth i drafod yr ADA a'r Cynllun Gweithredu Drafft mewn ymateb i'r argymhellion a wnaed
- Er mwyn i ni glywed gan y genhedlaeth nesaf, rydym wedi datblygu cynigion ar gyfer Fforwm Ieuenctid i bobl ifanc 13-18 oed. Er mwyn ein helpu ni i lunio ein cynlluniau ar gyfer y dyfodol, gan gynnwys treialu mentrau lleihau risg a dargedwyd at bobl ifanc. Byddwn yn hyrwyddo a lansio hwn yn ddiweddarach yn 2024
- Dechrau adolygiad o hygyrchedd ein gwefan gan ddefnyddio Mynegai Silktide (safon ryngwladol sy'n gwerthuso hygyrchedd gwefannau ar sail lefel eu cydymffurfiaeth â Chanllawiau ar gyfer Hygyrchedd Cynnwys Gwefannau). Mae hyn yn ein galluogi i fonitro ein sgôr ac rydym yn parhau i weithio gyda'n darparwr gwefan i wella ymarferoldeb
- Hyrwyddo negeseuon diogelwch, digwyddiadau a chyfleoedd recriwtio mewn amrywiaeth o ffyrdd, gan gynnwys sgriniau digidol, cyfryngau cymdeithasol, taflenni, a hysbysebion papur newydd a radio

**Gwella cydlynu ein hymwneud â digwyddiadau a gweithgareddau cymunedol, gan ddarparu cymorth i orsafoedd tân ac achub** - i'w helpu i ddatblygu eu cyfranogiad lleol a'u rôl o fewn eu cymunedau.

- Ehangodd gorsafoedd eu cyfranogiad mewn digwyddiadau cymunedol lleol, gan ddefnyddio'r cyfleoedd hyn i hyrwyddo gwybodaeth am y Gwasanaeth, negeseuon diogelwch a gwybodaeth recriwtio
- Yn ogystal â'r Diwrnod Gwasanaethau Brys 999 ym Mae Caerdydd yr ydym yn ei gydlynu'n flynyddol, cynhaliwyd diwrnodau 999 lleol ym Mlaenau Gwent, Caerffili, Ogwr, a Llanilltud Fawr, gan sicrhau bod ein cymunedau'n cael y cyfle i fynychu digwyddiadau. Mewn cydweithrediad â Heddlu De Cymru, Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru a phartneriaid eraill, roedd y digwyddiadau hyn yn gyfle i weld arddangosiadau byw, cwrdd â'n criwiau a chael gwybodaeth am ddiogelwch mewn amgylchedd cyfeillgar i deuluoedd

**Lansio pecyn cymorth ymgysylltu safonol i'w ddefnyddio ar draws y Gwasanaeth** gydag adnoddau ar gyfer cynllunio, darparu a gwerthuso digwyddiadau a gweithgareddau ymgysylltu eraill. Er mwyn darparu cysondeb yn ein hymagwedd at ymgysylltu a chaniatáu i ni goladu data ar ddigwyddiadau a meysydd i'w gwella, rydym wedi:

- Datblygu Pecyn Cymorth Ymgysylltu gyda chanllawiau ar gyfer cynllunio, darparu a gwerthuso gweithgareddau, o drefnu digwyddiad recriwtio i gymryd rhan mewn sioe leol neu gynnal ymarfer ymgynghori ar draws y Gwasanaeth
- Diweddaru Cynllun Rheoli Digwyddiad Gorsafoedd sy'n cynnwys templedi i'w cwblhau ar gyfer yr holl ystyriaethau perthnasol gan gynnwys Iechyd a Diogelwch, cyfleusterau safle, cysylltiadau allweddol, hyrwyddo'r digwyddiad, risgiau cysylltiedig, lluniaeth, y broses ganslo, ac ati

**Rhannu rhagor o wybodaeth am yr amrywiaeth o weithgareddau a gyflawnir gan Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru gan ddefnyddio dulliau digidol a rhai nad ydynt yn ddigidol** – mae cyfrifoldebau gwasanaeth tân ac achub modern yn helaeth ac, fel corff cyhoeddus yng Nghymru, mae rôl gyda ni hefyd mewn cyflawni agenda ehangach, yn enwedig o ran Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

- Crëwyd dwy rôl newydd i wirfoddolwyr sy'n cynnwys ymgysylltu â'r cyhoedd a hyrwyddo negeseuon atal boddi mewn lleoliadau â pheryglon dŵr hysbys yn ogystal â chodi ymwybyddiaeth am ein cyfleoedd Ar Alwad

Mae gweithgareddau lleol eraill a gynhaliwyd eleni'n cynnwys:

- Ar gyfer Wythnos Ryngwladol Ystafelloedd Rheoli buom yn dathlu ein "Arwyr mewn Clustffonau" wrth rannu straeon gan staff CRT am eu profiadau yn gweithio i'r Gwasanaeth, eu hymweliad gan Frigâd Dân Llundain a dathlu dechreuwyr newydd
- Ymwelodd Diffoddwyr Tân o Orsaf Dân ac Achub Maendy â digwyddiad Diwrnod Affrica, a gynhaliwyd gan Gymdeithas Gwirfoddoli Casnewydd Zimbabwe a Chyngor Dinas Casnewydd. Fe wnaethon nhw ymgysylltu â phobl am recriwtio ar gyfer Ar Alwad a chyflwyno negeseuon diogelwch
- Ym mis Mehefin, cefnogodd staff Gorsaf Dân ac Achub Caerffili'r digwyddiad Pride cyntaf a gynhaliwyd erioed yng Nghaerffili, gyda bron i 24,000 o ymwelwyr yn bresennol yn ystod y dydd. Buodd sawl sefydliad arall, gan gynnwys Heddlu Gwent, Rhedwyr Caerffili, a llawer o fusnesau lleol yn rhan o'r dathliadau
- Mynychodd Diffoddwyr Tân o Gwmbrân ŵyl bêl-droed cynwysoldeb Cwpan y Byd i Ferched a drefnwyd gan Ddatblygu Chwaraeon Torfaen
- Ym mis Rhagfyr, adeiladodd criw Aberbargod sled, a'i ddefnyddio i ddosbarthu siocledi i'r plant yn y gymuned, wrth gynnig cyngor diogelwch tân Nadoligaidd a hyrwyddo negeseuon diogelwch y Gwasanaeth yr un pryd

## Beth fyddwn yn gwneud yn 2024-2025

**Cyfleu gwell gwybodaeth am bwy ydym ni a beth rydym yn ei wneud**

Cynllunio a chyflwyno ymgyrch gyfathrebu am y Cynllun Gweithredu ar gyfer argymhellion yr ADA.

Cynllunio a chynnal ymgyrch gyfathrebu am newidiadau arfaethedig i'n hymateb i Larymau Tân Awtomatig (LTA). Bydd hwn yn sicrhau bod ein cymunedau yn ymwybodol o'n cynigion, yn eu galluogi i ddweud eu dweud ar y cynigion hyn.

Cynhyrchu a chyhoeddi cylchlythyr allanol fydd yn rhoi cipolwg i'n cymunedau ar yr hyn rydym yn ei wneud, ledled De Cymru, ac ar lefel fwy lleol yn y gymuned.

Adolygu ein gwefan o ran cynnwys, hygyrchedd a newidiadau 'ystafell gefn' y gellir eu gwneud i wella ymarferoldeb. Bydd hyn yn rhoi'r profiad gorau posibl i ddefnyddwyr ac yn sicrhau cydymffurfiaeth cyn cynnal unrhyw adolygiad pellach gan Lywodraeth Cymru, nes y byddwn yn gallu comisiynu gwefan newydd sydd wedi'i hadeiladu gyda hygyrchedd yn flaenoriaeth allweddol.

**Gweithio gyda staff, rhanddeiliaid, cymunedau a phartneriaid i roi argymhellion yr Adolygiad Diwylliant Annibynnol ar waith, gan greu gwelliannau ar y cyd i'r Gwasanaeth.**

Mae'r adroddiad, a gyhoeddwyd ar y 3ydd o Ionawr 2024, wedi arwain at graffu ychwanegol gan y cyfryngau a rhanddeiliaid amrywiol. Mae'r effaith andwyol bosibl y gall hyn ei chael ar y ffordd yr ydym yn cael ein canfod, yn ogystal â'r ddelwedd yr ymddiriedir ynddo yn y pen draw i ni gyflawni ein swyddogaethau'n effeithiol, yn golygu bod rhaid i ni roi sicrwydd am y newidiadau yr ydym yn eu cyflwyno. Mae cynllun cyfathrebu wedi cael ei ddatblygu i sicrhau bod gwybodaeth allweddol yn cael ei chyflwyno'n gyson wrth i ni hefyd hyrwyddo ffyrdd amrywiol i randdeiliaid roi adborth i ni. Bydd ein gweithgorau a arweinir gan staff yn parhau â'u gwaith ar greu modelau ar gyfer newid. Bydd Grŵp Ymgynghori ac Ymgysylltu'r Gwasanaeth yn sicrhau bod yr holl ddigwyddiadau sy'n ymwneud â'r cyhoedd a chyfleoedd ymgysylltu yn cael eu cynllunio, eu rheoli a'u hadolygu'n effeithiol.

**Gofyn i'n staff sut gallwn gyfathrebu'n well.**

Bydd hyn yn ffocws ar gyfer ein gweithgorau. Byddwn hefyd yn parhau i ddatblygu ein llwyfannau ymgysylltu â staff a'n rhaglen o weithgareddau ymgynghori.

**Dechrau gwaith i ddatblygu Fforwm Dinasyddion, gan alluogi lleisiau amrywiol i lunio'r gwasanaethau a ddarparwn.**

Byddwn yn gweithredu ein Fforwm Ieuenctid arfaethedig ac yn archwilio cyfleoedd i ddatblygu grwpiau pellach neu gefnogi ac ymgysylltu â grwpiau cyfredol. Bydd cyfranogiad effeithiol yn ein helpu i lunio ein cynlluniau yn ogystal â adnabod materion sydd o bwys i'n cymunedau.

**Mapio ein gweithgareddau a'n rhanddeiliaid i sicrhau ein bod yn cynnwys grwpiau priodol.**

I gefnogi gweithio mewn partneriaethau cymdeithasol a datblygu ein cydweithrediad ag asiantaethau eraill, byddwn yn cwblhau a chynnal cofnod o'n gweithgareddau, gan adnabod gwaith ar y cyd a hefyd adnabod cyfleoedd i'r dyfodol.

**Cydnabod a hyrwyddo gwaith gorsafoedd o ran cefnogi a chynnwys y gymuned.**

Bydd ein gwaith ar ddatblygu pecyn cymorth ar gyfer gorsafoedd yn cael ei gyflwyno fesul cam a bydd yn gwella'r modd y caiff ein gweithgareddau cymunedol eu cofnodi.




## Y Groes Goch Brydeinig - Ymateb Brys

Bu'r Gwasanaeth yn gweithio ers cryn amser gyda'r Groes Goch Brydeinig i sicrhau bod y rhai sy'n profi argyfwng yn cael y cymorth angenrheidiol. Gyda chaniatâd yr unigolyn, a lle mae atgyfeiriad yn briodol, mae gwirfoddolwyr y Groes Goch Brydeinig yn darparu cymorth emosiynol ac ymarferol ar unwaith a dros dro. Yn Nhachwedd 2023, ehangwyd y trefniant blaenorol, sef tîm a leolir yng Ngorsaf Dân Trelái i gynnwys tîm a cherbyd Ymateb Brys y Groes Goch Brydeinig dan arweiniad gwirfoddolwyr – Land Rover Defender – a leolir yng Ngorsaf Dân Pontypridd.

Ar gerbydau'r timau mae eitemau megis dillad, blancedi a phecynnau hylendid, sy'n eu galluogi i fynychu gwahanol fathau o ddigwyddiadau brys a chefnogi pobl mewn argyfwng, megis tanau domestig, llifogydd neu ddigwyddiadau mawr. Gall cymorth ymarferol gynnwys grantiau ariannol brys a dosbarthu bwyd, llety brys neu atgyfeiriadau at asiantaethau eraill.

Yn ystod y flwyddyn nesaf, byddwn yn gweithio gyda'n gilydd i godi ymwybyddiaeth am y gefnogaeth hon gyda gwirfoddolwyr ymateb i argyfwng y Groes Goch yn cychwyn ar raglen o gyflwyniadau i staff Cyd-reoli Tân a gwylfeydd yn ein gorsafoedd Dyletswydd Gyflawn.

# Diogelu a dyrchafu ein hamgylchedd

## Yn Cefnogi'r Nodau Llesiant canlynol:

Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

Cymru iachach

Cymru gydnerth

Cymru o gymunedau cydlynus

### Beth mae hyn yn ei olygu?

Rydym yn cydnabod bod ein gweithgareddau yn dylanwadu ar yr amgylchedd lleol a'r amgylchedd byd-eang yn negyddol o achos effaith yr adnoddau a ddefnyddiwn ac yn gadarnhaol o ganlyniad i'n gwaith i leihau risg a gwarchod yr amgylchedd. Mae ein Cynllun Lleihau Carbon 2020-2023 yn adnabod ein rhaglen i gyflawni amcan Llywodraeth Cymru o gael sector cyhoeddus carbon niwtral erbyn 2030. Mae hyn yn cynnwys ystyried yr adnoddau a ddefnyddiwn – o leihau, ailddefnyddio ac ailgylchu, i werthuso canlyniadau amgylcheddol ein penderfyniadau caffael. Mae'r penderfyniadau caffael, sy'n amodol ar ein Hegwyddorion Caffael Cynaliadwy ein hunain yn ogystal â'r Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus a gyflwynwyd yn ddiweddar. Mae effaith newid hinsawdd yn cael ei dystiolaethu gan newidiadau i'r gofynion rydym yn wynebu: mae cyfnodau hirach a hirfaith o dywydd eithafol yn debyg o gynyddu tanau gwyllt a llifogydd. Dim ond wrth bartneriaethau effeithiol y gellir mynd i'r afael â hyn, felly rydym yn parhau i gydweithio â phartneriaid allweddol i ddeall a mynd i'r afael â'r heriau hyn.

Mae gan ein gwaith ffocws cymunedol cryf, gan wneud yr amgylchedd naturiol yn ddiogel a hygyrch. Mae gwybodaeth am safleoedd gwarchodedig a chefnogaeth ar gyfer gweithredu lleol yn allweddol, o weithio gydag ysgolion i gefnogi partneriaethau lleol.

Cynnal ein gweithgareddau mewn modd fydd yn helpu cynnal y ddaear ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol

#### Byddwn yn diogelu ein hamgylchedd wrth:

- Leihau'r defnydd o ddeunyddiau untro
- Ehangu'r defnydd o gerbydau trydan
- Lleihau ein defnydd o ynni a'n hôl troed carbon
- Ystyried sut mae ein gweithgareddau yn effeithio ar yr amgylchedd
- Lleihau faint o wastraff a gynhyrchir

#### Rydym yn mesur ein cynnydd wrth fonitro:

- Ein Cynllun Lleihau Carbon a'n cynnydd o ran dod yn garbon niwtral
- Ein fflyd a darpariaeth ar gyfer mannau gwefru cerbydau trydan (CT).
- Milltiroedd teithio busnes
- Gwastraff a gynhyrchir

#### Beth wnaethom yn 2023-2024

**Adolygu datblygiadau mewn tanwydd a thechnolegau eraill i adnabod cyfleoedd a all fod o fudd i bolisi adnewyddu asedau fflyd y Gwasanaeth a'r strategaeth gaffael** – i werthuso a datblygu ein dyhead am fflyd wyrddach.

- Rydym yn parhau i ehangu ein fflyd o gerbydau trydan a'n seilwaith ategol. Rydym wedi dechrau gwneud ymarfer gwerthuso gyda Gwasanaeth Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru i adnabod ffynonellau tanwydd amgen megis biodiesel a sut y gallent gyfrannu at ein cynllun lleihau carbon

**Gweithredu System Reoli Amgylcheddol achrededig (SRh A)** - I ennill cydnabyddiaeth am ein harferion amgylcheddol a dangos ein hymrwymiadau i gynaliadwyedd, ystyried effeithiau amgylcheddol, cydymffurfio â deddfwriaeth, a diogelu'r amgylchedd.

- Cwblhawyd dadansoddiad o'r bylchau, gan nodi'r camau gweithredu angenrheidiol i gyflawni'r gwahanol lefelau o SRh A achrededig. Rydym wedi dechrau gweithio ar ein Hadolygiad Amgylcheddol Cychwynnol (AAC), Polisi Amgylcheddol a Chynllun Gwella, ac rydym wedi drafftio cynnig ar gyfer system rheoli data SRh A. Ein nod yw cwblhau'r rhain yn gynnar yn y flwyddyn ariannol newydd, gan gyrraedd felly Lefel 1 yn y SRh A. Mae cyrhaeddiad lefelau uwch eisoes wedi'i fapio a byddwn yn gweithio ar hyn wrth gydol y flwyddyn nesaf

**Datblygu deialog agored gyda'r staff am ein sefyllfa o ran lleihau carbon a'r heriau sy'n ein hwynebu** – wrth ymgysylltu a chynnwys cydweithwyr ar draws y Gwasanaeth, fe wnaethom gynyddu ymwybyddiaeth o'n gweithgareddau ac annog atebion arloesol.

- Datblygwyd tudalen Cynaliadwyedd newydd ar ein mewnrwyd staff. Mae hwn yn cynnig siop-un-stop ar gyfer gwybodaeth a diweddariadau am weithgarwch yn ymwneud â chynaliadwyedd, gyda data cyfredol am allyriadau carbon ac ynni yn cael eu harddangos
- Fe wnaethom hyrwyddo Wythnos Hinsawdd Cymru wrth rannu'r gwaith rydym wedi bod yn ei wneud, gan gynnwys adeiladu rhwydwaith o Hyrwyddwyr Cynaliadwyedd ar draws y Gwasanaeth fydd yn helpu cynaliadwyedd yn eu hardaloedd wrth law hyfforddiant a mentrau
- Fel rhan o'n hymrwymiad i Siarteri Teithio Iach, cynhaliodd y Tîm Cynaliadwyedd arolwg cymudo ar draws y Gwasanaeth i ddysgu sut mae ein staff yn teithio i'r gwaith ac yn ôl. Cyhoeddwyd y canlyniadau ar fewnrwyd y staff ynghyd â gwybodaeth am opsiynau mwy cynaliadwy
- Dechreuwyd contract casglu gwastraff newydd gennym i sicrhau bod ein gwastraff yn cael ei waredu yn unol â deddfwriaeth ailgylchu newydd
- Er mwyn cyflawni ein dyletswydd yn unol â Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 i gynnal a dyrchafu bioamrywiaeth wrth gyflawni ein swyddogaethau, mae rheoli tir erbyn hyn yn rhan o gynlluniau gorsafoedd. Bydd gorsafoedd felly'n helpu gyda chynlluniau lleol ac yn deall risg ar safleoedd wrth ennill dealltwriaeth well o'u gwerth o safbwynt ecolegol ac i'r gymuned

**Cytuno ar ofynion safonol adeilad cynaliadwy a'u diffinio** – yn y tymor hwy, bydd hyn yn sicrhau bod ein hadeiladau'n defnyddio adnoddau'n effeithlon a'u bod yn gyfrifol o safbwynt amgylcheddol hyd eu cylch bywyd.

- Agorodd ein cyfleuster newydd ar gyfer Chwilio ac Achub Trefol (ChAT) Cymru yng Ngorsaf Dân yr Eglwys Newydd, yn cynrychioli'r tri Gwasanaeth Tân ac Achub yng Nghymru. Fe'i cynlluniwyd gyda chynaliadwyedd mewn golwg, a bydd yn darparu adeilad modern, gweithredol sy'n ystyriol o'r amgylchedd. Bydd gosodiadau paneli solar Ffotofoltäig (PV) newydd yn darparu tua 10,287 kWh o drydan y flwyddyn, ac arbedion o 2,184kg o CO2 bob blwyddyn. Bydd ymgorffori system batri 400V hefyd yn golygu y gellir defnyddio unrhyw ynni dros ben a gynhyrchir ar ddiwrnodau heulog, gyda'r nos – gan wneud yr adeilad yn 'hunangynhaliol'
- Cymeradwywyd ein cais cynllunio ar gyfer Gorsaf Dân New Inn ym mis Chwefror 2024. Ein nod yw cyflawni sgôr carbon sero-net wrth ddefnyddio deunyddiau cynaliadwy, paneli solar, system uwch ar gyfer insiwleiddio ac awyru, cynaeafu dŵr glaw a systemau dyfrhau effeithlon ar gyfer tirlunio awyr agored, a darparu mannau gwyrdd i wella bioamrywiaeth a chreu cynefinoedd ar gyfer fflora a ffawna lleol. Bydd cynllunio a datblygu'r prosiect hwn yn llywio ein holl ddatblygiadau adeiladu i'r dyfodol

Mae ymgyrchoedd lleol eraill yn cynnwys:

- Mae'r holl orsafoedd a lleoliadau gwaith yn parhau i ddatblygu ffyrdd i ddod yn fwy ymwybodol o'r amgylchedd. Ym mis Gorffennaf, ein gorsaf yng Nghwm Ogwr oedd yr orsaf dân gyntaf a'r unig un o fewn y DU i dderbyn Gwobr Gymunedol y Faner Werdd gan Cadwch Gymru'n Daclus, am yr Ardd Lles ac Addysg yno. Mae'r orsaf ar hyn o bryd yn ymgysylltu â'n Harweinydd Addysg Diogelwch Tân Cymunedol, ysgolion lleol, a Lleoliad Dechrau'n Deg y Blynyddoedd Cynnar i sefydlu pecyn ymgysylltu ar y cyd ac maent hefyd yn gweithio ymhellach gyda Cadwch Gymru'n Daclus gan obeithio gosod perllan yn yr ardd, i helpu cefnogi bioamrywiaeth, gwella natur, a chefnogi ymgysylltu cymunedol. Mae ganddynt hefyd do byw gwyrdd newydd a fydd yn cynnal bioamrywiaeth yr orsaf a'i chynefinoedd cyfagos a'u galluogi i ffynnu gan annog ecosystemau iach i blanhigion, ffyngau, pryfed, adar, a mamaliaid eraill eu defnyddio

## Beth fyddwn yn gwneud yn 2024-2025

**Parhau i ddatblygu wrth ymateb i danau gwyllt.**
Gweithio gyda chydweithwyr o Gyfoeth Naturiol Cymru (CNC) i ddeall tir lleol, lleoliadau posib ar gyfer y cynefinoedd mwyaf agored i niwed neu lle gall fod goblygiadau ariannol neu ecolegol difrifol o ganlyniad i danau. Mae'r tanau hyn yn straen ar adnoddau'r gwasanaethau brys ac yn peri risg i fywyd ac eiddo.

**Dechrau datblygu ein gorsaf garbon niwtral gyntaf.**
Bydd amnewid yr Orsaf Dân gyfredol yn New Inn ag adeilad newydd sbon diweddaredig a chynaliadwy yn gwneud cynaliadwyedd yn amcan allweddol gyda'r nod o gyflawni sgôr ynni Sero-net o ran Carbon (NZC).

**Parhau i uwchraddio ein cyfleuster hyfforddi tân gwirioneddol (CHTG) i leihau'r effaith ar yr amgylchedd.**
Mae gan ein CHTG system trin mwg o'r enw smocsidydd; lle bydd mwg a gynhyrchir yn yr adeilad yn cael ei ddal, ei echdynnu a'i hidlo cyn ei ryddhau i'r atmosffer gan fodloni'r holl ofynion cyfreithiol ac amgylcheddol. Fodd bynnag, mae offer gwarchod personol (OGP) Diffoddwyr Tân yn fodd bosibl o ddod i gysylltiad â halogenau gwenwynig a ryddheir yn gyffredin gan danau. Byddwn yn sefydlu proses ar gyfer trin OGP a ddefnyddir a fydd yn lleihau'r risgiau iechyd yn gysylltieidig ag OGP budr i ddiffoddwyr tân.

**Gwella ein rheoli gwastraff wrth ddefnyddio data a gesglir gan ffrydiau gwastraff.**
Wrth ymgysylltu â'n staff a'u haddysgu am ofynion deddfwriaeth ailgylchu yn y gweithle Llywodraeth Cymru, byddwn yn gwella ansawdd a maint y deunydd ailgylchu a geir o weithleoedd, gan gymryd cam pwysig tuag at gyrraedd dim gwastraff. Byddwn hefyd yn gweithredu proses archwilio fel rhan o'r System Reoli Amgylcheddol (SRhA) yn ogystal â meincnodi a gosod targedau.

Bydd archwiliadau cyfnodol yn edrych ar gyfeintiau ac amrywiadau mewn gwastraff ar draws y Gwasanaeth a chynnal archwiliadau ymarferol mewn lleoliadau i adnabod arferion gwastraffus gan ein galluogi i leihau gwastraff.

**Mesur effaith ein gweithredoedd ac adrodd ar ein cynnydd.**
Bydd datblygu dangosfwrdd yn cynnwys metrigau i ddangos newid ar lefel gronynnog yn galluogi monitro gweithgarwch fesul safle, gan ganiatáu cymryd camau yn lleol i leihau'r defnydd o ynni, er enghraifft. Rhoddwyd caniatâd i ddefnyddio gwaelodlin newydd yn seiliedig ar ddulliau adrodd Llywodraeth Cymru er mwyn mynd i'r afael ag anghysondebau data ar draws gwahanol gyfryngau yn fewnol ac yn allanol.

**Adolygu ein system rheoli fflyd**
I sicrhau effeithlonrwydd a nodau cynaliadwyedd tymor hwy gan gynnal cydymffurfiaeth cofnodion.

**Gweithio gyda phartneriaid i ddiogelu ein hamgylchedd.**
Bydd rhannu arfer gorau wrth Grŵp Cynaliadwyedd GTA Cymru Gyfan ac ymgysylltu â phartneriaid ac asiantaethau eraill am ddull cydweithredol i leihau ein heffaith amgylcheddol o fudd i bawb gan rannu gwybodaeth, sgiliau, arbenigedd ac adnoddau i ddod o hyd i atebion i faterion cynaliadwyedd.

Byddwn yn parhau i adolygu datblygiadau a chyfleoedd mewn perthynas â thanwydd a thechnolegau eraill i adnabod unrhyw fanteision posib i'r Gwasanaeth.

**Adnabod ffyrdd o wella a datblygu ein hardaloedd llesiant a mannau gwyrdd.**
Bydd cynigion ar gyfer tirlunio gorsaf dân newydd net-sero o ran carbon New Inn yn cynnwys gofod braf awyr agored i gynnig amgylchedd dymunol a darpariaethau ar gyfer llesiant staff.



## Ailwampio Gorsaf Dân New Inn

Ar ôl derbyn cais cynllunio ar gyfer ail-ddatblygu Gorsaf Dân New Inn, bydd gwaith yn cychwyn yn 2024 a disgwylir iddo gwblhau yn 2026. Mae cynllun yr adeilad newydd yn eithafu effeithiolrwydd gwagle, gyda swyddogaethau a gweithgareddau gorsaf dân wedi'u lleoli lle fyddant fwyaf effeithiol. Bydd y safle'n cymhwyso offer a chyfarpar hyfforddi, gan gynnwys tŵr hyfforddi amnewidiol. Bydd gwaith tirlunio yn cynnwys mwynwagleoedd awyr agored i gynnig amgylchedd dymunol a bydd darpariaethau llesiant i staff a bywyd gwyllt yn cael eu cefnogi â blychau ystlumod ac adar.

Mae amnewid yr adeilad cyfredol, sydd dros 70 mlwydd oed, yn brosiect enghreifftiol ar gyfer adeiladau'r dyfodol gyda chynaliadwyedd fel amcan allweddol. Ein nod yw cyflawni graddfa ynni carbon Sero Net a gyflawnir wrth osod casgliad cyfan o baneli solar ar do'r adeilad, pympiau gwresogi sydd â ffynhonnell awyr a gwell inswleiddio.

# Defnyddio technoleg yn dda

## Yn Cefnogi'r Nodau Llesiant canlynol:

Cymru gydnerth

Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

Cymru iachach

## Beth mae hyn yn ei olygu?

Mae technoleg yn cefnogi ein gwaith ar draws y Gwasanaeth, gan gynnwys technegau ac offer diffodd tân gweithredol a'r systemau swyddfa gefn sy'n darparu gwasanaethau busnes a chofnodi ein gweithgareddau. Ein blaenoriaeth yw defnyddio'r dechnoleg orau i gofnodi a monitro galwadau brys, danfon y cerbydau a'r criwiau cywir atoch, a'n helpu ni mewn lleoliadau digwyddiadau brys.

Nodwyd yn yr ymgynghoriad bod gwelliant o ran TGCh, sy'n un agwedd ar ein defnydd o dechnoleg, gan dynnu sylw at yr angen i arloesi. Gyda'r trosglwyddiad diweddar i Office 365, mae systemau a ffyrdd newydd o weithio yn ymwreiddio yn ein gweithgarwch o ddydd i ddydd a bydd y datblygiad yn parhau. Mae systemau'n cael eu hadolygu'n barhaus i nodi'r potensial ar gyfer gwelliant o ran hwylustod ac/neu ymarferoldeb defnydd.

Gan fod technoleg yn cael ei defnyddio bob dydd ar draws y Gwasanaeth gan gynifer ohonom, pwynt arall a godwyd yn yr ymgynghoriad oedd sianel i ddefnyddwyr roi adborth ar ddatblygiad systemau. Byddwn yn archwilio sut y gellir cryfhau hyn yn ein prosesau profi a chaffael sydd eisoes yn drylwyr, fel byddwn yn gwneud gwell defnydd o TGCh

**Chwilio'n barhaus i ddefnyddio'r dechnoleg ddiweddaraf er mwyn gwella ein gwasanaeth i chi**

### Byddwn yn defnyddio technoleg yn dda wrth:

- Ddefnyddio'r dechnoleg a'r offer mwyaf addas i wella ein gwasanaethau
- Adolygu'r safon a'r defnydd o dechnoleg ac offer ar draws y Gwasanaeth

### Byddwn yn mesur ein cynnydd wrth fonitro:

- Digwyddiadau seiberddiogelwch
- Cyfarfodydd ar-lein
- Galwadau desg gymorth

### Beth wnaethon ni yn 2023-2024

**Archwilio'r defnydd o ddyfeisiau digidol i hyrwyddo arferion gwaith newydd ac arloesol**, gan wella cofnodi gwybodaeth a diweddaru cofnodion i sicrhau arbedion cynaliadwy o ran rheoli data.

- Mae'r defnydd o'n system desg gymorth 24/7 wedi'i ehangu i fwy o adrannau, gan alluogi rheoli ceisiadau a llwythi gwaith, er enghraifft, monitro ceisiadau Llywodraethu Gwybodaeth a'u cynnydd
- Rydym wedi cyhoeddi cod QR ar gyfer Taclo'r Tacle sy'n galluogi aelodau'r cyhoedd i adrodd pryderon. Rydym hefyd wedi ychwanegu cod QR ar gyfer yr ap FlyMapper ar ein faniau Tîm Lleihau Llosgi Bwriadol newydd, gan hyrwyddo adrodd ar dipio anghyfreithlon fel rhan o'n gwaith gyda Taclo Tipio Cymru
- Mae'r rhan fwyaf o'n gweithgarwch recriwtio erbyn hyn ar-lein, gan gynnwys adnabod swydd wag a phenodi. Mae hyn wedi gwella'r profiad i ymgeiswyr ac mae'n fwy effeithlon i recriwtwyr

**Adolygu System Rheoli Gwybodaeth y Gwasanaeth i sicrhau bod data ar gael ar gyfer gweithgareddau monitro a chynllunio** gan sicrhau ein bod yn seiliedig ar dystiolaeth wrth wneud penderfyniadau.

Mae ein System Gwybodaeth Rheoli Busnes (SGRhB) yn ein helpu i gasglu a chyflwyno data a gwybodaeth am ein perfformiad. Mae'r gwelliannau a gyflwynwyd gennym yn cynnwys:

- Datblygu adroddiadau ar gyfer ein Tîm Hyfforddi a Datblygu er mwyn hwyluso monitro cofrestriadau a chwblhau cyrsiau

**Defnyddio technoleg i ehangu ein cyfres o weithgareddau lleihau risg** – gall defnyddio technoleg gynyddu ein cwmpas ar gyfer lleihau risg wrth arbedion effeithlonrwydd ac ymgysylltu â chynulleidfa ehangach.

- Mae ein Timau Ymyrraeth Ieuenctid a Diogelwch Tân wedi prynu dwy ddyfais electronig sy'n caniatáu iddynt lawrlwytho gemau i helpu addysgu plant a phobl ifanc am amrywiaeth o bynciau, gan gynnwys yn benodol risgiau tân. Mae ymchwil yn cael ei wneud i ddatblygu ein gemau ein hunain, fel y gallwn eu teilwra'n fwy ar gyfer ein gwasanaeth a'n cymunedau
- Dechreuwyd datblygu pecyn addysgol "penderfyniadau rhithwir" a fydd yn galluogi plant a phobl ifanc i gymryd rhan yn eu stori eu hunain wrth wneud penderfyniadau gwahanol. Bydd defnyddio offer realiti electronig a rhithwir yn gwneud hyn yn fwy atyniadol a bydd yn fwy dylanwadol wrth addysgu pwysigrwydd gwneud dewisiadau cadarnhaol

**Gwella a chynyddu'r Rhaglen Arolygu ar Sail Risg electronig a gyflwynwyd yn ddiweddar ar gyfer eiddo annomestig, yn seiliedig ar y risg i ddiogelwch bywyd pobl berthnasol** – bydd hyn yn cefnogi ymweliadau a gynlluniwyd ymlaen llaw i wirio cydymffurfiaeth â gofynion y Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân).

- Datblygwyd ffurflen archwilio electronig i wella'r wybodaeth sydd ar gael ar y Rhaglen Archwilio Seiliedig ar Risg
- Cwblhawyd adolygiad o'r system gyfredol eleni, a sefydlwyd gweithgor i gefnogi dod o hyd i ddarparwr system newydd ar gyfer Rhaglen Archwilio yn Seiliedig ar Risg i'r Gwasanaeth

**Parhau â'r rhaglen i uwchraddio'r holl weinyddion** gan ein galluogi i adolygu rhaglenni a lleihau costau wrth gynyddu effeithlonrwydd a diogelwch.

- Wrth'r flwyddyn mae ein hadran TGCh wedi parhau â'u gwaith i uwchraddio ein holl weinyddion a fydd yn sicrhau ein bod yn defnyddio technoleg ar ei gorau a'n galluogi i adolygu ein rhaglenni i'w gwella'n fwy byth

Mae cynlluniau i ddatblygu system negeseuon ar gyfer cadarnhau apwyntiadau Iechyd Galwedigaethol drwy law negeseuon testun wedi'u gohirio gan ein bod yn ystyried System Rheoli Cleifion hollgynhwysol.

Rydym hefyd wedi defnyddio prosesau cenedlaethol a gynhyrchwyd gan [Grŵp Cynghori Seiber Dechnegol] i ddrafftio polisi Parowrthdd Seiber a Fforensig a fydd, unwaith y bydd wedi'i gwblhau, yn cael ei adolygu a'i integreiddio â chanllawiau gan [Fforwm Lleol Cymru Gydnerth Gwent] a'r [Cyngor Penaethiaid Tân Cenedlaethol], yn gynnar yn y flwyddyn ariannol newydd.

## Beth fyddwn yn gwneud yn 2024-2025

**Uwchraddio systemau cyfathrebu ar gyfer offer i ddarparu cymwysiadau ychwanegol i'w defnyddio mewn amser real.**

Datblygu gwybodaeth risg amser real ychwanegol y gellir ei chyflwyno i derfynellau data symudol (TDS) ar beiriannau tân a dyfeisiau eraill sy'n gysylltiedig â'r rhyngrwyd, gan ddarparu gwybodaeth risg gywir i'r criwiau ar y ffordd i ddigwyddiadau ac mewn digwyddiadau.

Cydlynu adnewyddu setiau radio llaw prif gynllun sy’n agosáu at ddiwedd eu hoes. Bydd hyn yn darparu hydwythdedd cynyddol ac ymarferoldeb gwell.

Disodli’r ffonau symudol sylfaenol ar ein peiriannau tân gyda dyfeisiau clyfar i ddarparu mynediad i Ddiffoddwyr Tân at apiau fydd yn dyrchafu darpariaeth gwasanaethau, e.e., ap FlyMapper.

**Defnyddio TGCh yn fwy effeithlon i ymgysylltu â’n gweithlu gweithredol.**

Cynyddu’r defnydd o gynadledda fideo ar-lein ar gyfer cyfarfodydd a hyfforddiant a fydd yn galluogi cydweithredu amser real, cynyddu cynhyrchiant, arbed amser, a helpu pobl sy’n gweithio o bell i deimlo’n llai ynysig ac ymgysylltu mwy.

**Cynyddu’r defnydd o dechnoleg symudol.**

Adolygu a threialu dyfeisiau digidol i hyrwyddo arferion gwaith newydd ac arloesol a all arwain at arbedion effeithlonrwydd cynaliadwy. Cynhyrchir adroddiad fydd yn adnabod opsiynau a chostau. Mae cyllideb wedi’i chynnwys ar gyfer 2024-2025 i ddarparu offer TGCh ychwanegol ar gyfer ein hadran Rheoli Risg Gweithredol (Rh RG).

**Gwella cydweithio digidol a’r cyfleoedd gwaith digidol.**

Sefydlu gweithgor newydd i archwilio’r gofynion technolegol sydd eu hangen i gyflawni arbedion effeithlonrwydd mewn prosiectau megis Gwiriadau Diogelwch Tân Masnachol, Rôl Swyddog Tactegol Diogelwch Tân i Fusnesau a Systemau Cudd-wybodaeth Weithredol.

**Darparu mwy o hydwythdedd a diogelwch i’n systemau TGCh.**

Gweithio gyda menter Canolfan Gweithrediadau Diogelwch (CGD) Llywodraeth Cymru i ddarparu dull ‘amddiffyn gyda’n gilydd’ ar gyfer sector cyhoeddus cysylltiedig lle rhennir gwybodaeth.

Disodli ein seilwaith gweinyddwyr cyfredol, storio a rhwydweithio gyda seilwaith Hyper-gydgyfeiriol (HCI) a fydd yn sicrhau seilwaith mwy hydwyth a diogel i gynnal ein bwrdd gwaith a systemau rhithwir i weinyddwyr.

Cynllunio a chynnal efelychiadau Rheoli Parhad Busnes (Rh PB) sy’n cynnwys heriau aflonyddgar i brofi eu heffaith ar ein darpariaeth gwasanaeth. Bydd hyn yn adnabod cyfleoedd i wella trefniadau cyfredol, yn datblygu cymwyseddau a hyder staff yn ogystal â phrofi gweithdrefnau, cynlluniau a systemau cyfredol i sicrhau eu bod yn cynnig y lefel a ddisgwylir o ran diogelwch.

**Darparu adnoddau ychwanegol i gefnogi prosiectau newydd a pharhaus ar gyfer CRT**

O’r 1af o Ebrill 2024 ymlaen, bydd uwch Reolwr TGCh yn cael ei benodi’n barhaol i CRT i gydlynu prosiectau’r dyfodol gan fod yn gyswllt i Brosiect System Ystafell Reoli Heddlu De Cymru yn ogystal ag edrych ar ddisodli Gorchymyn a Rheoli ar gyfer y Gwasanaeth i’r dyfodol.

# Gwerthfawrogi ein pobl

Yn Cefnogi'r Nodau Llesiant canlynol:

Cymru sy'n fwy cyfartal

Cymru iachach

Cymru lewyrchus

Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu

## Beth mae hyn yn ei olygu?

Eleni mae ffocws digynsail wedi bod ar ein staff, ddoe a heddiw, wrth'r Adolygiad Diwylliant Annibynnol a gyhoeddwyd ym mis Ionawr ac a ddechreuodd ym mis Ebrill 2023. Mae hon wedi bod yn her sylweddol i bawb dan sylw ac rydym yn gwerthfawrogi dewrder a gonestrwydd y rhai a rannodd eu profiadau gyda Fenella Morris CB a'i thîm. Gan fod yr adroddiad a'i argymhellion wedi'u cyhoeddi erbyn hyn, rydym yn cydnabod, wrth i'r flwyddyn ariannol hon ddod i ben, mai dyma ddechrau ein taith mewn gwirionedd i adeiladu diwylliant sy'n gynhwysol, yn gefnogol ac yn gadarnhaol i bawb. Mae ein Gweithgorau a arweinir gan staff, ac a sefydlwyd i ddatblygu cynigion mewn ymateb i'r argymhellion, yn tynnu pobl o bob maes o'r Gwasanaeth ac roedd croeso i bawb ymuno â hwy. Bydd eu gwaith yn cael ei lywio gan y Gwasanaeth cyfan a bydd y gwaith a wneir yn cael ei gyfleu i staff y Gwasanaeth hefyd. Yn ogystal â sicrhau bod cymaint o staff â phosibl yn cymryd rhan, rydym yn gweithio gyda phartneriaid allanol i ymgynghori ar ein cynllun gweithredu a'i adolygu, gan sicrhau ein bod yn parhau i fod yn wrthrychol, yn dryloyw ac yn deg.

Mae teimlo eich bod yn cael eich gwerthfawrogi yn y gweithle yn dechrau gyda theimlo bod parch ac ymddiriedaeth yn elfennau o'n gwerthoedd craidd. Os ydym am wireddu ein dyhead i fod yn gyflogwr dewisol a denu'r bobl iawn, gyda'r sgiliau a'r gwerthoedd cywir, sy'n cynrychioli'r cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu, rhaid i ni hefyd edrych ar agweddau eraill ar gyflogaeth. Mae hyn yn cynnwys y cymorth a ddarparwn yn ystod cyfnodau salwch neu heriau bywyd eraill, yn ogystal â chyfleoedd hyfforddiant a datblygiad fel bod yr holl yrfaoedd gyda'r gwasanaeth tân ac achub yn werth chweil.

Byddwn yn datblygu dull cynhwysfawr i wella lles gweithwyr er mwyn lleihau absenoldebau salwch a chanolbwyntio ar hybu iechyd a ffitrwydd. Mae gan bawb rôl allweddol wrth gadw ein cymunedau'n ddiogel gan gynnwys gweithiwr a gwirfoddolwr y Gwasanaeth.

Cynnal gweithlu amrywiol sy'n cynrychioli eich cymuned, a hyfforddwyd yn dda ac sy'n ymroddedig i gyflawni ein gwasanaeth

### Byddwn yn gwerthfawrogi ein pobl wrth:

- Cyflawni newid sylfaenol yn ein diwylliant, gan ymateb i argymhellion yr Adolygiad Diwylliant Annibynnol
- Denu gweithlu sy'n adlewyrchu a chynrychioli ein cymunedau
- Datblygu ein pobl wrth adnabod cyfleoedd hyfforddi a datblygu
- Cefnogi ein pobl i deimlo'n dda, yn iach a chael eu gwerthfawrogi yn y gwaith
- Cyflawni argymhellion adroddiad Buddsoddwyr mewn Pobl (BmP).
- Annog a chefnogi diwylliant dwyieithog ar draws y Gwasanaeth

### Rydym yn mesur ein cynnydd wrth fonitro:

- Trosiant, cadw a recriwtio staff
- Adolygiad personol – sgorau ymgysylltu
- Absenoldeb staff
- Ymosodiadau ar griwiau a digwyddiadau trawmatig eraill

## Beth wnaethom yn 2023-2024

**Adolygu a chodi ymwybyddiaeth o ystod lawn y Gwasanaeth o raglenni buddion gweithwyr** - I sicrhau bod y cymorth i staff yn cael ei hyrwyddo ac yn hygyrch.

- Lansiwyd contract Buddion Gwasanaeth Cymru Gyfan i staff, sy'n cynnwys llwyfan sy'n haws ei ddefnyddio ac ystod ehangach o fanteision nag a oedd ar gael o'r blaen. Cafodd gwybodaeth am y cynllun newydd ei chyfleu i staff ar ddiwedd 2023-2024 gan ddefnyddio ystod o ddulliau
- Lansiodd ein Tîm Dysgu, Datblygu a Chynhwysiant (DDC) y Cynllun Hyfforddi a Mentora sy'n amserlen pedair blynedd fanwl yn manylu ar sut y bydd y cynllun yn cael ei ddatblygu, ei weithredu, ei fonitro a'i adolygu. Roedd Blwyddyn Un, a ddechreuodd ym mis Ebrill 2023, yn cynnwys adeiladu'r sylfeini megis prosesau a dogfennaeth, hyfforddi grŵp o staff i ddod yn hyfforddwyr hyd safon a gydnabyddir yn ffurfiol, yn ogystal ag ymgysylltu â staff i gynyddu sgyrsiau arddull hyfforddi fel y broses Adolygiad Personol

**Sicrhau bod gan bob aelod o staff fynediad i lwybr dysgu** – er mwyn i'r holl weithiwyr adeiladu eu gwybodaeth a'u sgiliau i gefnogi eu gyrfa gyda'r Gwasanaeth.

- Lansiodd ein Tîm DDC y rhaglenni Llwybrau ar ddechrau'r flwyddyn i helpu i ddatblygu sgiliau a gweithio tuag at ddilyniant a dyrchafiad. Mae gan yr holl staff fynediad at Lwybr ac mae ystod o lefelau ar gael. Mae'r Llwybrau'n cefnogi staff i ddatblygu o fewn eu rôl bresennol a hefyd yn darparu cyfleoedd i ddewis cynlluniau dysgu personol i wella eu potensial ar gyfer dyrchafiad

**Ail-lunio ein fframwaith cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant i ddiwallu anghenion a heriau gwasanaeth tân ac achub modern** – bydd hyn yn sicrhau bod ein gwasanaethau a'n prosesau yn deg ac yn hygyrch.

- Rydym wedi ailysgrifennu ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn ddiweddar ac rydym yn gweithio ar ein Cynllun Gweithredu Cynhwysol newydd i'w gyflwyno ym mis Ebrill 2024
- Roedd yr Adolygiad Diwylliant Annibynnol yn cynnwys profiadau staff o safbwynt cydraddoldeb ac amrywiaeth. Bydd gweithredu'r argymhellion yn ein helpu i ail-lunio ein fframwaith cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant
- Yn ogystal â'r adolygiad, cynhaliwyd digwyddiad meincnodi diwylliannol i staff ein Canolfan Hyfforddi a Datblygu Porth Caerdydd. Mae fforwm 10KV Hydra yn galluogi staff i roi adborth yn ddienw. Cyhoeddwyd y sylwadau a'r adborth ar ein Dangosfwrdd Diwylliant sydd ar gael i'r holl staff

Mae enghreifftiau eraill o weithgarwch yn cynnwys:

- Ddiwedd 2023, cymerodd recriwtiaid yr Ystafell Rheoli Tân ar y Cyd ran mewn gorymdaith raddio ar y cyd â'u cydweithwyr sy'n ddiffoddwyr tân ym Mhorth Caerdydd. Hwn oedd y digwyddiad ar y cyd cyntaf o'r math a bydd yn digwydd eto yn y dyfodol
- Ymhelaethodd y Timau Cynllunio, Perfformiad a Risg a'r Cyfryngau a Chyfathrebiadau ar ymgysylltiad staff ar gyfer yr ymgynghoriad ar y Cynllun Gwella Blynyddol trwy gynnal cyfarfodydd trafod ar draws y Gwasanaeth. Bydd hyn yn parhau a bydd yn cael ei ehangu i weithredu amserlen i gefnogi pob gorsaf ac adran i ymgysylltu ag ymgynghoriadau'r Gwasanaeth yn gyson, naill ai wyneb yn wyneb neu'n rhithiol
- Gwnaeth yr Tîm Cyfryngau a Chyfathrebiadau newidiadau hefyd ar gyfer cyfathrebiadau mewnol, ar ôl adolygu'r adborth o arolwg a gynhaliwyd yn ddiweddar. Mae bwletin y PST erbyn hyn ar gael ar ffurf fideo, yn ogystal â'r ddogfen ysgrifenedig ar fewnrwyd y staff. Bydd grŵp ffocws yn cyfarfod i archwilio adborth ar y fewnrwyd, fforwm Shout, cylchlythyr ac ap staff a thrafod sut i gynnwys staff gweithredol yn fwy

- Mae'r broses Adolygiad Personol yn parhau i ymwreiddio ar draws holl feysydd y Gwasanaeth. Eleni gofynnodd ein Hadran Adnoddau Dynol i staff am adborth a defnyddiwyd hwn i lywio adolygiad. O hyn ymlaen bydd un broses flynyddol y gellir ei theilwra'n well ar gyfer rolau a chynlluniau unigol
- Ym mis Rhagfyr lansiwyd proses Cyfweliad Ymadael diwygiedig, gan gynnwys arolwg byr, dienw newydd i staff ddarparu adborth cychwynnol ac, er mwyn cynyddu hyblygrwydd, mae opsiynau ar sut i gwblhau'r cyfweliad ymadael

## Beth fyddwn yn gwneud yn 2024-2025

**Ymateb i ganfyddiadau Adroddiad yr Adolygiad Diwylliant Annibynnol (AADA).**

Gweithredu argymhellion yr AADA a fydd yn galluogi amgylchedd gwaith cadarnhaol i'n holl staff a dwyn pawb i gyfrif am gynnal ein gwerthoedd craidd.

Gofyn i'n staff sut y gallwn gyfathrebu'n well gan gynnwys penderfyniadau a wnaed yn ogystal â'r cynllun gweithredu sy'n deillio o'r AADA. Bydd hyn yn sicrhau bod gan bob gweithiwr y wybodaeth sydd ei hangen arnynt ac yn helpu i feithrin cydberthnasau rhwng timau gwahanol.

Archwilio datblygiad academi prentisiaethau i hwyluso ein huchelgais i arallgyfeirio.

Datblygu rôl arweiniol strategol o fewn ein cyfarwyddiaeth Gwasanaethau Pobl ar weithgareddau allgymorth i grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol.

**Trawsnewid swyddogaethau ein Gwasanaethau Pobl i ddarparu'r cymorth gweithredol gorau posibl a rhoi pobl wrth galon popeth a wnawn.**

Mae'r gwaith i adolygu strwythur Gwasanaethau Pobl yn dwyn ffrwyth gyda'r bwriad i'w gymeradwyo i'w weithredu o Ebrill 2024.

**Adolygu ein cyfraddau cadw ar gyfer diffoddwyr tân Ar Alwad.**

Ar ôl llwyddiant mis recriwtio Ar Alwad ym mis Awst 2023, rydym am gynnal yr ymgyrch eto a'i gwella, er mwyn ennyn diddordeb yn y rôl Ar Alwad a'i hyrwyddo.

Mae ein Tîm Rheoli Wrth Gefn yn gweithio gyda Sgiliau er Cyfiawnder (SC) i sefydlu cymhwyster newydd sbon. Bydd hyn hefyd yn cyd-fynd â threialu'r cwrs cychwynnol newydd sy'n para am wythnos o hyd.

**Datblygu a monitro hyfforddiant ar gyfer yr holl staff i gyflwyno datblygiad sgiliau sylfaen, e.e. TGCh.**

Ymchwilio i ffyrdd newydd i hyfforddi ac ail-lunio cyrsiau cyfredol i wneud y defnydd gorau o'n technoleg ar-lein. Bydd hwn yn cynnwys archwilio cyfleoedd i gynyddu'r hyfforddiant ar-lein a ddarperir yn ogystal â datblygu cymhwysedd gweithredol, a gyflawnir trwy sesiynau rhithwir a Micro-ddysgu.

# Parhau i weithio'n effeithiol

## Yn Cefnogi'r Nodau Llesiant canlynol:

Cymru lewyrchus

Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu

Cymru iachach

## Beth mae hyn yn ei olygu?

Mae dangos ein heffeithiolrwydd yn gofyn am dryloywder ac atebolrwydd ar draws sbectrwm llawn ein gweithgareddau, fel gwasanaeth tân ac achub yn ogystal â'r holl weithgarwch busnes cysylltiedig. Mae hyn yn cynnwys cynhyrchu cynlluniau sy'n hygyrch ac yn llawn gwybodaeth, darparu gwybodaeth am berfformiad yn rheolaidd a defnyddio mesurau sy'n ystyrlon.

Mae hefyd yn golygu defnyddio adborth ar gyfer gwelliant, gan gynnwys gweithgareddau megis ymgynghori, archwiliadau ac adolygiadau. Ystyrir y dystiolaeth hon a gweithredir arni lle gellir adnabod cyfleoedd i wella. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, cyhoeddodd Archwilio Cymru eu hadroddiad ar **Leihau Galwadau Tân Ffug** yn Ne Cymru a gafodd ei adolygu gan weithgor sy'n canolbwyntio ar reoli effaith galwadau diangen ar y Gwasanaeth. Byddai lleihau presenoldeb mewn Larymau Tân Awtomatig (LTA) yn darparu capasiti i gynyddu oriau hyfforddi a gweithgaredd lleihau risg, a bydd model ar gyfer hyn yn cael ei ystyried yn ystod y flwyddyn nesaf. Fel y nodir yng nghyfarwyddyd y Comisiynwyr gan Lywodraeth Cymru, bydd argymhellion Adolygiadau Thematig Prif Ymgynghorydd Tân ac Achub (PYTA) Llywodraeth Cymru a gynhaliwyd yn ddiweddar hefyd yn cael eu gweithredu ynhyd ag argymhellion yr Adolygiad Diwylliant Annibynnol. Bydd y gwaith o ddarparu'r gwelliannau hyn yn cael ei gyflawni mewn partneriaeth gymdeithasol, yn gweithio â staff, cyrff cynrychioladol a rhanddeiliaid eraill.

Mae eleni wedi bod yn heriol gan fod y Gwasanaeth wedi bod yn destun craffu, a byddwn yn defnyddio hyn i ddod o hyd i ffyrdd newydd i fesur ein perfformiad sy'n mynd y tu hwnt i'r digwyddiadau yr ydym yn eu mynychu er mwyn ystyried pa mor effeithiol yr ydym wrth ddeall y Gwasanaeth a'r bobl sy'n rhan annatod o'i lwyddiant. Bydd datblygu metrigau i'n galluogi i fesur cynnydd ar ein taith i greu diwylliant cynhwysol, teg yn flaenoriaeth, a byddwn yn gweithio gyda Gwasanaethau eraill ac yn dysgu ganddynt yn hyn o beth.

Byddwn hefyd yn atebol ac yn dryloyw i'r cyhoedd wrth wneud yn siŵr bod ein cymunedau'n deall y risgiau yn eu hardal. Byddwn yn dweud wrth gymunedau beth rydym yn gyfrifol am ei gyflawni, sut y caiff hyn ei gefnogi gan ein trefniadau partneriaeth, a beth yw ein cynlluniau.

Ein nod yw sicrhau'r gwerth gorau am arian wrth wella ein gwasanaeth. Bydd dyletswyddau a gyflwynwyd yn ddiweddar ar Gaffael a Phartneriaeth Gymdeithasol yn sicrhau bod hyn o fudd i'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu.

Sicrhau bod ein Gwasanaeth yn rhoi gwerth am arian ac yn amlwg yn atebol

- **Byddwn yn parhau i weithio'n effeithiol wrth:**
- Bod yn glir ac yn atebol yn gyhoeddus
- Sicrhau'r gwerth gorau am arian wrth wella ein gwasanaeth
- Datblygu ffyrdd newydd o weithio

- **Rydym yn mesur ein cynnydd wrth fonitro:**
- Canlyniadau rhaglenni archwilio mewnol ac allanol
- Meincnodi yn erbyn gwasanaethau tân ac achub eraill
- Barn Archwilio Cymru ar ddatganiadau ariannol
- Nifer y cwynion a dderbyniwyd

## Beth wnaethom yn 2023-2024

**Paratoi a chynllunio ar gyfer effaith y Mesur Caffael a'r Mesur Caffael Cyhoeddus a Phartneriaeth Gymdeithasol** – i sicrhau cydymffurfiaeth â rheoliadau caffael cyhoeddus i ddiogelu effeithlonrwydd, tryloywder a hyblygrwydd.

- Mae ein tîm Caffael wedi datblygu Egwyddorion Caffael Cynaliadwy i sicrhau bod ein gwaith gyda chontractwyr yn cynnwys ac yn hyrwyddo ystyriaethau amgylcheddol. Maent hefyd wedi datblygu Pecyn Cymorth Cynaliadwy sy'n tywys arweinwyr caffael wrth gyfres o gwestiynau yn ymwneud â chynaliadwyedd amgylcheddol, gan sicrhau penderfyniadau gwybodus wrth gaffael nwyddau a gwasanaethau
- Fe wnaethom gymryd rhan yn ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar y rheoliad ar gyfer y Mesur Caffael ac mae aelodau o'n Tîm Caffael wedi'u cofrestru ar gyfer hyfforddiant Llywodraeth Cymru ar gyfer hyn, sydd i fod i ddechrau ym mis Mai 2024

**Adolygwyd a diwygiwyd gweithdrefnau yn dilyn unrhyw newidiadau deddfwriaethol yn y dyfodol yng Nghymru** - i sicrhau y gallwn gyflawni ein dyletswyddau fel corff rheoleiddio.

- Rydym wedi parhau â'n gwaith i roi Ymarfer Diwygio Pensiwn cenedlaethol McCloud ar waith, mae'r ymarfer unioni data wedi dechrau, ac rydym yn blaenoriaethu achosion, fel yr argymhellir yn ôl y gyfraith
- Ar gyfer Rhwymedi Pensiwn Matthews, rydym wedi anfon llythyrau at bobl gymwys a'r rhai nad ydynt yn bodloni'r meini prawf. Cafodd y ddeddfwriaeth ei deddfu gan Lywodraeth Cymru ar y 1af o Chwefror 2024, felly mae 18 mis gyda ni i gwblhau hyn

**Adolygwyd ein gweithdrefnau gwaredu** – i sicrhau bod ein hasedau, gan gynnwys cerbydau a dodrefn, yn cael eu rheoli wrth gydol eu hoes. Mae ein Polisi a'n proses Caffael eisoes yn hyrwyddo ystyried gwaredu wrth gaffael eitemau ond eleni rydym wedi bod yn adolygu ein prosesau cyfredol ar gyfer gwaredu eitemau:

- Rydym yn sicrhau bod eitemau y gellir eu hailddefnyddio megis dodrefn yn cael eu cadw yn y storfa i bobl eraill eu hailddefnyddio ar gais
- Rydym wedi rhoi prosesau newydd ar waith ar gyfer hen wisg - ailgylchir tecstilau lle bo modd a lle nad yw hynny'n bosibl, byddant yn cael eu dinistrio a'u llosgi i gynhyrchu ynni i'r Grid Cenedlaethol (tanwydd sy'n deillio o sbwriel)

- Mae dogfen broses Ffrwd Gwastraff wedi'i datblygu i gynghori staff ar sut i waredu gwastraff neu eitemau diangen yn gywir, a disgwylir iddi gael ei chyhoeddi yn gynnar yn y flwyddyn ariannol

Mae enghreifftiau eraill o waith yn y maes hwn yn cynnwys:

- Mae ein Tîm Llywodraethu Gwybodaeth (Ll G) wedi datblygu holiadur diogelwch safle a fydd yn llywio rhaglen archwilio Ll G yn y dyfodol
- Mae tudalennau'r wefan ar gyfer Ll G wedi'u hailgynllunio ac mae'n cael eu diweddaru ar hyn o bryd. Bydd hwn yn darparu Log Datgeliadau a ddiweddarwyd ar gyfer cyhoeddi ceisiadau am wybodaeth yn y Llyfrgell Gyhoeddiadau. Bydd y fersiwn wedi'i diweddaru hon yn gwneud ein ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth yn fwy hygyrch i'r cyhoedd
- Cynhyrchodd yr adran Rheoli Risg Gweithredol (RhRG) broses newydd ar gyfer adrodd Damweiniau a Damweiniau ac ar hyn o bryd maent yn darparu hyfforddiant amdani i wahanol feysydd o fewn y Gwasanaeth
- Cyflwynwyd ymchwil i offer gwerthuso sy'n briodol i oedran ac mae'r Tîm Ieuenctid yn drafftio syniadau ar gyfer eu ffurflen werthuso eu hunain i'w defnyddio wrth ymgysylltu â phlant a phobl ifanc. Bydd hyn yn ein galluogi i adnabod pa ymarferion sy fwyaf atyniadol ac effeithiol

## Beth wnawn ni yn 2024-2025

**Archwilio ffyrdd i fonitro a gwerthuso canlyniadau ein gweithgareddau, gan gynnwys gweithgareddau atal er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i wneud pobl yn fwy diogel.**

Datblygu canllawiau a gweithdrefnau sicrhau ansawdd data Diogelwch Cymunedol a Phartneriaethau.

Datblygu a gweithredu prosesau sicrhau ansawdd o fewn ein hystafell Rheoli Tân y Cyd gan gynnwys arolygu ac archwilio meysydd gan gynnwys ymdrin â galwadau a chofnodion digwyddiadau. Bydd hyn yn sicrhau'r safon ofynnol o ran gwaith a chysondeb prosesau.

**Sicrhau tryloywder ac atebolrwydd wrth gynhyrchu gwybodaeth hygyrch, eglur i'r cyhoedd.**

Mapio a chyhoeddi ein grwpiau a phrosesau gwneud penderfyniadau.

Cyflwyno adroddiadau rhagweithiol ar wybodaeth y gofynnir amdani amlaf wrth geisiadau Rhyddid Gwybodaeth (RhG), gan sicrhau tryloywder ac atebolrwydd wrth gynhyrchu gwybodaeth hygyrch ac eglur i'r cyhoedd. Bydd hefyd yn cyfrannu at effeithlonrwydd.

**Sicrhau gwerth gorau i'r cyhoedd wrth weithdrefnau caffael teg a chadarn, cydweithio, gweithio mewn partneriaeth a rhoi sylw dyledus i Strategaeth Ariannol Tymor Canolig y Gwasanaeth.**

Hyfforddi ein Tîm Contractio am ofynion y Rheoliadau Caffael Cyhoeddus newydd a ddaw i rym yn y DU ym mis Hydref 2024. Bydd hyn yn lleihau'r risg o gael ein herio gan gyflenwyr ac yn helpu i'n hamddiffyn rhag unrhyw ddiffyg cydymffurfio cytundebol.

Casglu data yn unol â Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023 i gasglu canlyniadau llesiant a gynhwysir yn y prosesau caffael. Mae'r Ddeddf yn darparu fframwaith ar gyfer gwella llesiant yng Nghymru wrth weithio mewn partneriaeth gymdeithasol, hyrwyddo gwaith teg, newidiadau i'r ffordd y bydd gwariant cyhoeddus yng Nghymru ei ddyrannu a'r ffordd y bydd nwyddau a gwasanaethau yn cael eu caffael wrth gaffael cyhoeddus sy'n gymdeithasol gyfrifol. Mae trafodaethau â Llywodraeth Cymru wedi adnabod y bydd angen hyn erbyn 2025.

Llunio cynllun gweithredu ar gyfer cyflawni'r Ymrwymiadau [Cod Ymarfer Llywodraeth Cymru – Cyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi.]

## Seiberddiogelwch - Diogelu ein systemau a'ch data

Mae seiberddiogelwch yn diogelu'r dyfeisiau a'r gwasanaethau rydym yn defnyddio rhag lladrad neu ddifrod, gan leihau'r risg o ymosodiad seiber a hynny ar-lein ac yn y swyddfa. Mae'n helpu atal y data a gyrchwn rhag cael ei beryglu, gan osgoi amharu ar ein gwaith colledion ariannol neu ddifrïo ein henw da.

Mae'r rhan fwyaf o achosion o dorri amodau seiber yn seiliedig ar dechnegau megis e-byst gwerwydo, rydym yn parhau i'w monitro a hyfforddi pobl i adnabod a chodi unrhyw bryderon. Rydym hefyd yn defnyddio llawer o systemau diogelwch technegol i ddiogelu ein systemau gan gynnwys rhai'r Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol (NCSC).

Achos mawr arall yw diffygion mewn systemau cyfrifiadurol sy'n agored i niwed neu'n hen. Mae ein rhaglen glytio byrddau gwaith, uwchraddio gweinyddion rhyngrwyd, amnewid dyfeisiau rhwydwaith ac adolygu systemau'n rhan bwysig o'n ffocws parhaus wrth ddarparu rhwydwaith cydnerth sy'n diwallu anghenion defnyddwyr, gan gynnwys gweithio rheng flaen a gweithio hyblyg.

Mae diwylliant seiberddiogelwch cadarnhaol yn hanfodol achos mai'r bobl sy'n gwneud sefydliad yn ddiogel, yn hytrach na thechnoleg a phrosesau yn unig. Os bydd hyn oll ar waith, mae pobl yn gweld diogelwch fel ymgyrch ar y cyd a chydweithredol sy'n cefnogi, ac yn cael ei gefnogi gan, eu gwaith bob dydd.









# Trosolwg Ystadegau 2022-2023

Derbyniwyd **34,682** o alwadau gan Gyd-Reoli Tân ar gyfer ardal Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, gan gynnwys:

**1,052** o alwadau a gyfeiriwyd at asiantaethau eraill.

**2,500** o alwadau nad oedd angen ymateb brys ac fe ddeliwyd â hwy gan Cyd-Reoli Tân.

**10,413** o alwadau ailadroddus oedd yn ymwneud â digwyddiadau oedd yn digwydd eisoes

**18,705** o ddigwyddiadau a fynychwyd

**6,031** o danau gan gynnwys:

- **623** o danau damweiniol mewn anheddau
- **1,228** o danau glaswellt/danau gwyllt
- **2,706** o danau gwastraff

Roedd **71.0%** o'r tanau a fynychwyd yn fwriadol

**8,746** o alwadau ffug mewn ymateb i:

- **5,419** o larymau tân awtomatig
- **3,023** o alwadau â bwriad da
- **304** o alwadau ffug maleisus

**3,928** o alwadau gwasanaeth arbennig gan gynnwys:

- **848** o wrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd
- **47** o achubiadau o ddŵr
- **3,033** o ddigwyddiadau brys eraill *

Roedd gweithgarwch lleihau risg yn cynnwys:

- **1,014** o ymweliadau ag ysgolion
- **12,308** o archwiliadau diogelwch rhag tân yn y cartref
- **655** o archwiliadau diogelwch tân

Nifer y Gweithwyr**: **1,627**

Canran y gweithwyr gwrywaidd: **83%**







Canran y gweithwyr benywaidd: **17%**

** Digwyddiadau eraill nad oedd yn dân a oedd yn gofyn am beiriant tân neu swyddog.*

*** Ffigurau'r gweithwyr yn gywir ar 31 Mawrth 2023*

# Dangosyddion Perfformiad Strategol

Mae'n bwysig ein bod yn gwerthuso ein perfformiad i sicrhau ein bod mor effeithlon ac effeithiol â phosibl. Rydym yn monitro ystod o ddangosyddion ar draws y Gwasanaeth, a bydd adrodd arnynt yn cael eu datblygu yn y flwyddyn i ddod. Rydym hefyd yn gosod blaenamcanion blynyddol yn erbyn Dangosyddion Strategol Llywodraeth Cymru ac yn monitro ein perfformiad yn erbyn y rhain fel elfen o'n prosesau sicrwydd. Mae ein rhagamcanion cychwynnol a ddangosir isod yn amodol ar newid, yn seiliedig ar adrodd blwyddyn gyfan ar ddigwyddiadau.

| | Blwyddyn Ariannol 2019-20 | Blwyddyn Ariannol 2020-21 | Blwyddyn Ariannol 2021-22 | Blwyddyn Ariannol 2022-23 | Blwyddyn Ariannol 2023-24* | Tuedd 5 Blynedd | Blwyddyn Ariannol 2024-25 Rhagamcanol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Tanau a fynychwyd | 5,482 | 5,481 | 5,565 | 6,031 | 5,366 |  | 5,743 |
| Galwadau ffug a fynychwyd | 7,858 | 8,324 | 8,367 | 8,746 | 9,258 |  | 8,660 |
| Gwrthdrawiadau Traffig ar y Ffyrdd a fynychwyd | 995 | 643 | 859 | 848 | 836 |  | 838 |
| Galwadau Gwasanaeth Arbennig Eraill a fynychwyd | 2,569 | 2,275 | 2,711 | 3,079 | 3,137 |  | 2,906 |
| Marwolaethau ac Anafiadau sy'n deillio o holl danau | 84 | 49 | 62 | 63 | 36 |  | 55 |
| Marwolaethau ac Anafiadau sy'n deillio o danau damweiniol | 64 | 42 | 53 | 52 | 30 |  | 46 |
| Canran y Tanau mewn Anheddau a gynhwyswyd o fewn yr ystafell lle y'u tarddwyd | 84.20% | 82.23% | 83.81% | 82.65% | 84.57% |  | 83.59% |

** Mae'r data yn gywir ar y 26ain o Marwth 2024 – nid yw'r rhain yn ffigurau blwyddyn gyfan ac yn destun newid.*

*** Yn cynnwys Archwiliadau HFSC wedi'u haddasu a gynhelir dros y ffôn o fis Ebrill 2020*

# Ein Cyllideb 2024-2025

Ariennir ein Gwasanaeth gan y 10 awdurdod unedol yr ydym yn eu gwasanaethu, yn seiliedig ar boblogaeth pob ardal. Yn 2024-2025 roedd y gost yn cyfateb i £1.20 y person yr wythnos. Mae hyn yn gynnydd o'r gost gyllidebol ar gyfer 2023-2024 o £1.11 i bob person yr wythnos. Y prif yrwyr ar gyfer y cynnydd hwn oedd pwysau chwyddiant, newidiadau pensiwn a dyfarnu cynnydd mewn cyflogau. Byddwn yn parhau i adnabod arbedion effeithlonrwydd ond yn parhau i fod yn destun pwysau chwyddiant ym mhob maes o'r busnes.

| CYFANSWM CYLLID 2024-2025 | £95,840,240 |
|---|---|
| Gweithwyr | 59,401,610 |
| Pensiynau | 14,267,503 |
| Eiddo | 7,174,457 |
| Cyflenwadau a Gwasanaethau | 5,845,524 |
| Cymorth | 5,305,190 |
| Hyfforddiant | 1,834,599 |
| Trafnidiaeth | 1,724,590 |
| Gwasanaethau Cytundebol | 1,352,970 |
| Incwm | -1,066,203 |

Mae tua dwy ran o dair o'n cyllideb yn cael ei neilltuo ar gyfer costau staff a chostau cysylltiedig, heblaw pensiynau.

| CYLLIDEB GWEITHWYR | £59,401,610 |
|---|---|
| Staff Gweithredol | 43,953,388 |
| Staff Corfforaethol | 10,668,165 |
| Staff Rheoli | 1,593,613 |
| Costau staff eraill (Yn cynnwys goramser, teithio a chostau staff cysylltiedig eraill.) | 3,186,444 |

**• Gyda 47 o orsafoedd tân ac achub a dros 1,600 o staff, rydym yno mewn argyfwng ar gyfer:**

- 10 awdurdod unedol yn cwmpasu 2,800 cilomedr sgwâr gyda 3.7 cilomedr sgwâr o ddŵr mewndirol
- Dros 650,000 o aelwydydd a mwy na 1.5 miliwn o bobl
- Busnesau yn Ne Cymru, gan gynnwys dros 36,000 o fusnesau sydd eisoes mewn cysylltiad â ni

**24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos, 365 diwrnod y flwyddyn - yn costio £1.20 y person yr wythnos**

# Yr Iaith Gymraeg

Rydym wedi ymrwymo i wasanaethu'r rhai sy'n dewis cyfathrebu trwy gyfrwng y Gymraeg yn effeithiol. Yn ein hymrwymiad i gefnogi uchelgais Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr erbyn 2050, rydym yn hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer dwyieithrwydd a datblygu sgiliau Cymraeg i'n staff. Yn unol â Safonau'r Gymraeg 2015, mae Awdurdod Tân ac Achub De Cymru wedi derbyn Hysbysiad Cydymffurfio gan Gomisiynydd y Gymraeg yn nodi Safonau'r Gymraeg sy'n berthnasol i'r Awdurdod. Cyhoeddir yr Hysbysiad Cydymffurfio hwn ar ein gwefan ac mae'n rhoi manylion am ba wasanaethau y gall pobl ddisgwyl eu derbyn yn Gymraeg. Rydym yn ceisio ymgysylltu â siaradwyr Cymraeg a dysgwyr i wella'r safon gyffredinol o ran ein darpariaeth gwasanaeth.

## Fersiynau amgen

Rydym yn cyhoeddi fersiwn "darllen cyflym" o'r cynllun hwn ac mae'r ddau fersiwn ar gael ar ein gwefan gyda chyfleuster sain "Siaradwch y wefan". Os hoffech gael y wybodaeth hon mewn fformat arall, cysylltwch â ni.

## Dweud eich dweud

Rydym bob amser yn chwilio am ffyrdd i wella ein gwasanaethau a chyflwyno gwybodaeth sy'n ystyrlon. Wrth wneud hyn, rydym am sicrhau bod eich barn yn cael ei hystyried wrth gyflawni ein gweithgareddau ac adrodd arnynt. I gael diweddariadau rheolaidd a gwahoddiadau i gymryd rhan mewn ymgynghoriadau ac arolygon yn y dyfodol, cysylltwch â ni i ymuno â'n Cofrestr Rhanddeiliaid.

## Ysgrifennwch atom

Perfformiad Gwasanaeth a Chyfathrebiadau
Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru
Parc Busnes Forest View,
Llantrisant, CF72 8LX

## Gwefan

www.decymru-tan.gov.uk

## E-bostiwch ni

ded@decymru-tan.gov.uk

## Galwch ni

01443 232000

@TanDeCymru
@TanDeCymru
@sw_fire_and_rescue

Croesawn ohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg.
Byddwn yn ymateb yn gydradd yn y ddwy iaith ac yn ateb yn eich iaith ddewisol heb oedi.

AR-ALWAD
ON-CALL













## Recrwtio Ar Alwad

Lansiwyd ein hymgyrch “Yr un Sgiliau, rolau gwahanol” ar gyfer mis Ar Alwad ym mis Awst 2023. Ers hynny rydym wedi gweld cynnydd mewn ymholiadau drwy law’r cyfryngau cymdeithasol, e-byst, ffôn a’n gwefan a gwelwyd cynnydd yn y ceisiadau a dderbyniwyd ar gyfer y rôl bwysig hon. Yn dilyn llwyddiant y llynedd rydym yn cynllunio ein hymgyrch nesaf ar gyfer Awst 2024.

I gael gwybodaeth am ddod yn Ddiffoddwr Tân Ar Alwad, ewch i’n gwefan neu sganiwch y cod QR isod.

SGANIWCH FI



Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru

South Wales Fire and Rescue Service

Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru
Park Busnes Forest View, Llantrisant, CF72 8LX

01443 232000
www.decymru-tan.gov.uk

Cynlluniwyd a chynhyrchwyd yn fewnol gan Y Wasg a Chyfathrebiadau 2024 | MC000265